

# Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/SeneddCyllid](http://www.senedd.cymru/SeneddCyllid)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**  
**Senedd Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddCyllid@senedd.cymru](mailto:SeneddCyllid@senedd.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2022



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddCyllid](http://www.senedd.cymru/SeneddCyllid)

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**  
**Peredur Owen Griffiths AS**  
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**  
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**  
Llafur Cymru

## Cynnwys

<b>Casgliadau ac Argymhellion .....</b>	<b>5</b>
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>9</b>
<b>2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22.....</b>	<b>11</b>
<b>3. Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 .....</b>	<b>30</b>
<b>4. Cynllun Blynyddol 2022-23 ac Adroddiad Interim 2022-23.....</b>	<b>34</b>
<b>5. Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024 .....</b>	<b>40</b>
<b>Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....</b>	<b>68</b>
<b>Atodiad B: Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.....</b>	<b>69</b>

---



## Casgliadau ac Argymhellion

**Casgliad 1.** Yn amodol ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyhoeddiadau a ganlyn a ddarparwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiynau craffu blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22;
- Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022;
- Cynllun Blynyddol 2022-23
- Adroddiad Interim - Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2022-23 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022;
- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. .... Tudalen 10

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu manylion ei Strategaeth newydd 'Gweithio'n Dda, Byw'n Dda a Bwriadu'n Dda' ynghyd â'r broses o roi'r strategaeth ar waith. .... Tudalen 28

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn cynnwys manylion ei berfformiad yn erbyn y targed DPA blaenorol ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr a phrofiad gweithwyr, ochr yn ochr â'i dargedau diwygiedig yn 2022-23. .... Tudalen 28

**Argymhelliad 3.** Wrth ystyried ei drefniadau ar gyfer arolygon staff yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn ystyried cadw'r CSPC, yn asesu offer eraill i wella ei effeithiolrwydd ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar fodelau arolwg amgen a werthuswyd. .... Tudalen 28

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y gwaith a wnaed i wella ansawdd archwilio, gan gynnwys manylion y gweithgarwch sicrhau ansawdd penodol a gyflawnwyd ers sgôr 2021-22 a nifer yr archwiliadau a aseswyd ar gyfer sicrhau ansawdd. .... Tudalen 28

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn ffurfiol, yn ysgrifenedig, os na all gwblhau archwiliad o fewn y terfyn amser statudol o bedwar mis. .... Tudalen 28

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru:

- yn egluro'r rhesymeg y mae'n bwriadu ei mabwysiadu ynghylch rhannu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag archwilio Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, ac
- unwaith y bydd y sefyllfa derfynol wedi'i phennu, yn rhoi manylion am gyfanswm cost yr archwiliad o Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, gan gynnwys faint sy'n ychwanegol at yr amcangyfrif o ffioedd, sut mae'r costau ychwanegol wedi'u rhannu ac esboniad os yw'r dull gweithredu yn wahanol i'r rhesymeg.

..... Tudalen 29

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion am sut y mae'n rhoi newid ar waith yn y sefydliad ac yn benodol ar ganlyniad yr ymarferiad dysgu ôl prosiect ar gyfer y newidiadau i'r Lwfans Teithio, gan gynnwys sut y bydd y gwersi a ddysgir yn cael eu cymhwyso i'r camau adleoli i swyddfeydd Caerdydd, sydd ar ddod.

..... Tudalen 29

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y mater technegol sy'n ymwneud ag asedau seilwaith a'r effaith bosibl ar gyflawni ei waith archwilio..... Tudalen 39

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi dadansoddiad o'r eitemau anariannol o fewn ei linell sylfaen adnoddau, a chysoniad rhwng llinellau sylfaen arian parod ac adnoddau a nodir yn Rhan 2 o'r Amcangyfrif ar gyfer ei gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer 2023-24, ac yn Amcangyfrifon y dyfodol..... Tudalen 65

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell – ar gyfer pob Amcangyfrif yn y dyfodol – bod Archwilio Cymru yn darparu'r un lefel o fanylion am y cymorth y mae'n ei geisio ar sail adnoddau ac arian parod, gan gynnwys gwybodaeth am ei sefyllfa sylfaenol ac unrhyw newidiadau i'w gyllidebau. .... Tudalen 65

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn ystyried sut y gellir gwella'r modd y cyflwynir yr Amcangyfrif yn y dyfodol er mwyn:

- cymharu'r adnoddau a'r arian parod y gofynnwyd amdanynt â'r gyllideb gymeradwy ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, a lle nad yw hyn yn wir, dylid nodi hynny'n glir yn yr Amcangyfrif, gyda rhesymau i egluro pam nad oedd yn bosibl gwneud hynny;



- rhoi rhagor o fanylion a dadansoddiad o ran sut y bydd cynnydd mewn elfennau penodol o gyllid yn cael ei wario. .... Tudalen 66

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru:

- yn rhoi dadansoddiad o'r symudiadau o £550,000 yn y ffigur cyfalaf gweithio, ac
- yn cynnwys rhagor o wybodaeth am symudiadau mewn cyfalaf gweithio mewn Amcangyfrifon yn y dyfodol, gan gynnwys manylu ar eu diben ar hyn y mae pob symudiad yn ymwneud ag ef. .... Tudalen 66

**Argymhelliad 13.** Os yw Archwilio Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r newid cyllid arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio perfformiad lleol, mae'r Pwyllgor yn argymhell ei fod:

- yn darparu rhagor o wybodaeth am yr ymholiadau a godwyd gan Lywodraeth Cymru a hynt y trafodaethau hynny, wrth iddynt ddigwydd, ac
- yn gohirio'r cynnig tan Amcangyfrif 2024-25. .... Tudalen 66

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn ystyried ffyrdd pellach o gynnig cymorth ychwanegol i staff ar gyflog is a/neu staff a allai brofi anawsterau wrth i effeithiau'r cynnydd mewn costau byw gael eu teimlo, a'i fod yn cymryd camau i werthuso ei becyn cymorth i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf. .... Tudalen 66

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn dychwelyd y cyllid heb ei wario ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol o 2022-23 i Gronfa Gyfunol Cymru ac yn addasu'r llinell sylfaen ar gyfer 2023-24 yn unol â hynny. .... Tudalen 66

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion am yr adborth a gafwyd ar ei waith perfformiad ac yn ei ddiweddarau ar y broses o fabwysiadu safonau rhyngwladol o arfer gorau yn y maes hwn, gan gynnwys ei ddisgwyliadau o'r hyn y bydd yn ei gyflawni. .... Tudalen 66

**Argymhelliad 17.** Yn dilyn y broses dendro ar gyfer hyfforddiant cyfrifeg proffesiynol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod unrhyw arian dros ben yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru a'i dynnu o'r llinell sylfaen..... Tudalen 66

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion a dadansoddiad o sut y bydd elfennau penodol o'i gyllid cyfalaf yn cael eu gwario yn 2023-24 a hefyd yn cynnwys yr un lefel o fanylion ym mhob Amcangyfrif yn y dyfodol..... Tudalen 66

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o ran yr estyniad posibl i ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, pan ddaw'n amlwg beth fydd y goblygiadau i Archwilio Cymru. .... Tudalen 67

# 1. Cyflwyniad

## **Cefndir Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

- 1.** Cafodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.<sup>1</sup> Roedd y Ddeddf yn rhagnodi bod swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn parhau ac yn creu corff newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). At hynny, roedd yn nodi trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas â'r Archwilydd Cyffredinol a SAC.
- 2.** Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru, yn ogystal â Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu SAC. Mae SAC yn monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol, yn dal ac yn darparu adnoddau ac yn codi ffioedd ar gyfer gwaith yr Archwilydd a SAC. Cynrychiolir SAC gan Fwrdd, sy'n cynnwys Cadeirydd anweithredol, aelodau anweithredol eraill, yr Archwilydd Cyffredinol, aelod a benodir o blith y cyflogeion a dau aelod a etholir o blith y cyflogeion.
- 3.** Archwilio Cymru yw enw cyfunol anstatudol yr Archwilydd Cyffredinol a SAC, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

## **Trefniadau Atebolrwydd a Llywodraethiant**

- 4.** Mae'r Ddeddf yn rhoi nifer o swyddogaethau i Senedd Cymru (y Senedd). O dan adran 28 o'r Ddeddf, caiff y Senedd wneud darpariaeth drwy'r Rheolau Sefydlog ynghylch arfer y swyddogaethau a roddir iddi gan y Ddeddf, gan gynnwys "dirprwyo swyddogaethau i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, i bwyllgor neu is-bwyllgor y Senedd neu i gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath".<sup>2</sup> Yn unol â Rheol Sefydlog 18.10, dirprwywyd goruchwyliaeth SAC i'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor).<sup>3</sup>
- 5.** Gwnaed gwaith craffu blynyddol y flwyddyn hon ar SAC a'r Archwilydd Cyffredinol mewn dwy ran.

---

<sup>1</sup> [Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013](#)

<sup>2</sup> [Rheolau Sefydlog Senedd Cymru](#)

<sup>3</sup> [Cofnodion y Pwyllgor Busnes, 1 Hydref 2013](#)

**6.** Trafododd y Pwyllgor y cyhoeddiadau a ganlyn ar **22 Medi 2022** a chymryd tystiolaeth gan Adrian Crompton, yr Archwilydd Cyffredinol, Lindsay Foyster, Cadeirydd y Bwrdd, a dau swyddog o Archwilio Cymru:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22<sup>4</sup>;
- RSM UK Audit LLP – Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022<sup>5</sup>;
- Cynllun Blynyddol 2022-23<sup>6</sup>.

**7.** Ar **9 Tachwedd 2022**, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol, Cadeirydd y Bwrdd a dau swyddog o Archwilio Cymru ar y cyhoeddiadau a ganlyn:

- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024;
- Adroddiad Interim – Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2022-23 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022;

**Casgliad 1.** Yn amodol ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyhoeddiadau a ganlyn a ddarparwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiynau craffu blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22;
- Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad - y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022;
- Cynllun Blynyddol 2022-23
- Adroddiad Interim - Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2022-23 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022;
- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

---

<sup>4</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22

<sup>5</sup> RSM UK Audit LLP – Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

<sup>6</sup> Cynllun Blynyddol 2022-23

---

## 2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22

**8.** Gosodwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2021-22<sup>7</sup> gerbron y Senedd ar 15 Gorffennaf 2021. Paratôdd yr Archwilydd Cyffredinol, fel Swyddog Cyfrifyddu SAC, y Cyfrifon ar gyfer 2021-22 yn unol ag Atodlen 1 i'r Ddeddf. Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei baratoi ar y cyd rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd, yn unol ag Atodlen 2 i'r Ddeddf.<sup>8</sup>

### Cyflawni'r cynllun gwaith

**9.** Dywed yr Adroddiad Blynyddol fod swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a SAC yn "weddol gyson" â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn ond "gyda rhai newidiadau wedi'u gwneud i waith a gynlluniwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19". Mae'n nodi bod y blaenoriaethau yn y Cynllun Blynyddol<sup>9</sup> wedi cael eu "cyflawni'n sylweddol".<sup>10</sup> Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi bod y pandemig wedi parhau i "ymyrru" ar waith archwilio ar y safle "trwy gydol y rhan fwyaf o'r flwyddyn". Parhaodd Archwilio Cymru i ymgysylltu o bell a bu'n bosibl iddyn nhw:<sup>11</sup>

*"...reoli'r sefyllfa'n llwyddiannus drwy fabwysiadu trefniadau gweithio hyblyg ar draws timau ac ymestyn rhai o'n terfynau amser cwblhau arfaethedig."<sup>12</sup>*

**10.** Dechreuodd Archwilio Cymru ailagor ei swyddfeydd ym mis Ebrill 2021.<sup>13</sup>

### Archwilio

---

**11.** Mae Archwilio Cymru yn nodi bod ei waith archwilio cyfrifon ar gyfer 2021-22 wedi'i gyflawni'n llawn ac "i safon uchel".<sup>14</sup> Dywed:

- Cyflawnodd 19 o allbynnau rhaglenni gwerth am arian cenedlaethol yn 2021-22<sup>15</sup>;

---

<sup>7</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22

<sup>8</sup> Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

<sup>9</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 18

<sup>10</sup> Cynllun Blynyddol 2021-22

<sup>11</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 3

<sup>12</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 9

<sup>13</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 11

<sup>14</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 9

<sup>15</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 10

- cwblhawyd archwiliadau o gyfrifon holl gyrff y GIG erbyn 15 Mehefin 2021, gyda'r "mwyafrif" o'r archwiliadau o gyfrifon llywodraeth leol a chanolog wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Medi 2021<sup>16</sup>;
- cyflawnwyd 98 y cant o gynhyrchion archwilio erbyn y terfyn amser statudol gofynnol (targed 100 y cant)<sup>17</sup>;
- ei fod wedi "arwain y ffordd ymhlith asiantaethau archwilio'r DU o ran cyflawni archwiliadau cyfrifon amserol" a bod ei waith yn canolbwyntio ar "feysydd risg sy'n deillio o'r pandemig"<sup>18</sup>.

**12.** Pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol y lefel uchel barhaus o berfformiad a adlewyrchwyd yn y perfformiad yn erbyn y dangosyddion cyflawni archwiliadau, yng nghanol heriau parhaus y pandemig.<sup>19</sup> O ran cyflawni 98 y cant o gynhyrchion archwilio erbyn y terfyn amser statudol gofynnol, esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol fel a ganlyn:

*"...that's down to two major audits that were delayed—the Welsh Government's audit of accounts, which you're probably familiar with, and also Pembrokeshire local authority. I produced a public interest report into an exit payment to the former chief executive there, and the accounts couldn't be signed off until that PIR had been published and handled by the council."*<sup>20</sup>

**13.** Ategwyd y perfformiad cryf gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio:

*"In England, by way of comparison, by 30 September—that wasn't a deadline in Wales, but was in England—only 9 per cent of audits had been signed off, whereas we would have been able to sign off 41 per cent even at that stage, and that was two months earlier than our deadline here. So, I think our staff did an amazing job, actually."*<sup>21</sup>

---

<sup>16</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 21](#)

<sup>17</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 18](#)

<sup>18</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalennau 27 a 28](#)

<sup>19</sup>Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 54

<sup>20</sup>Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 55

<sup>21</sup>Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 57

---

## Rhedeg y busnes

---

**14.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi Strategaeth Llesiant newydd Archwilio Cymru; "Gweithio'n Dda, Byw'n Dda a Bwriadu'n Dda", a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022.<sup>22</sup>

**15.** Cynhaliodd Archwilio Cymru ei arolwg staff ym mis Hydref 2021 (cyfradd ymateb o 84 y cant), yn seiliedig ar y defnydd o holiadur craidd yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (neu'r CSPS). Ar lefel thematig, dangosodd y canlyniadau ostyngiad ac "yn gyffredinol yn is na chyfartaledd y CSPS"<sup>23</sup>. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi fel a ganlyn:

*"Er bod gan y rhan fwyaf o'r staff ddiddordeb yn eu gwaith o hyd a bod ymddiriedaeth ynddynt i gyflawni eu gwaith yn effeithiol, mae eu hymrwymiad emosiynol i'r sefydliad a'i lwyddiant wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan arwain at ostyngiad o 70% i 64%."*<sup>24</sup>

**16.** Mae'r Cadeirydd yn awgrymu nad oedd y gostyngiad hwn mewn boddhad gweithwyr yn syndod, o ystyried y newidiadau i'r cynllun Teithio a Chynhaliaeth a'r trefniadau gweithio o bell estynedig.<sup>25</sup>

**17.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlygu tri sgôr gostyngol yn benodol:

- Arwain a rheoli newid: 47 y cant, gostyngiad o 50 y cant yn 2020 (sgôr canolrif CSPS: 58 y cant).
- Amcanion a phwrpas y sefydliad: 76 y cant, gostyngiad o 83 y cant yn 2020 (sgôr canolrif CSPS: 85 y cant).
- Dysgu a datblygu: 45 y cant, gostyngiad o 49 y cant yn 2020 (sgôr canolrif CSPS: 56 y cant).<sup>26</sup>

**18.** Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos, o fewn y categori arweinyddiaeth a rheoli newid:

- Roedd 21 y cant o'r ymatebion yn anghytuno'n gryf â'r datganiad "pan fo newidiadau yn cael eu gwneud yn fy sefydliad maen nhw fel arfer er gwell", gyda dim ond 24 y cant o ymatebion yn gadarnhaol yn y maes hwn; ac

---

<sup>22</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 36

<sup>23</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 50

<sup>24</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 51

<sup>25</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 11

<sup>26</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 50 ac Arolwg Pobl Archwilio Cymru

---

- roedd 27 y cant o'r ymatebion yn anghytuno'n gryf â'r datganiad "rwyf o'r farn bod newid yn cael ei reoli'n dda yn fy sefydliad", gyda dim ond 22 y cant o ymatebion yn gadarnhaol yn y maes hwn.<sup>27</sup>

**19.** Cadarnhaodd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol y byddai'n ceisio "mewnwelediad dyfnach i dri maes lle yr oedd canlyniadau'r arolwg yn adlewyrchu canfyddiadau staff bod Archwilio Cymru yn tanberfformio".<sup>28</sup>

**20.** Yn dilyn canlyniadau'r arolwg, cytunodd Archwilio Cymru ar chwe chanlyniad gwella er mwyn "llywio camau gweithredu ym mhob rhan o'r sefydliad".<sup>29</sup>

**21.** Pan ofynnwyd pa mor bryderus y dylai'r Pwyllgor fod ynghylch canlyniadau'r arolwg staff, dywedodd y Cadeirydd:

*"...I think it's only natural that the board and the executive leadership team, our ELT, are concerned when they see results like this. Having said that, it's clear that the board also holds ELT to account for its performance, and the staff survey is one of the ways in which we understand and evidence performance. So, we've had very thorough discussions with ELT and provided challenge to make sure that we have the assurance at board that we understand the issues that are at play here."<sup>30</sup>*

**22.** Eglurodd y Cadeirydd fod adolygiad canol blwyddyn wedi'i roi ar waith eleni i weld sut mae'r camau gweithredu a nodwyd yn gwneud gwahaniaeth. Aeth yn ei blaen i ddweud:

*"Clearly the pandemic and the impact of the pandemic is still at play in relation to these results—the impact on people's individual well-being and the way in which remote working has impacted on morale across all sectors, to be quite honest.*

*We feel that there have been a couple of things that have been really important: thinking about how our trainees have had that access to that more immediate coaching and development as part of their experience when they've been having to work remotely; and then also thinking about how, both for our audited bodies and Audit Wales, working in a remote way has led to some inefficiencies and limited productivity at times, resulting in a*

---

<sup>27</sup> [Arolwg Pobl Archwilio Cymru](#)

<sup>28</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 51](#)

<sup>29</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 11](#)

<sup>30</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 60

---



*backlog of work. What we've identified as one of our key areas of concern is workload pressures, and we believe that, for all those reasons that that's come about, that is one of the things that is at play here. And that, of course, has been impacted, as committee is aware, by the travel and subsistence review in terms of staff morale as well.*"<sup>31</sup>

**23.** Ychwanegodd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi'i sicrhau gan waith trylwyr y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol wrth geisio deall yr hyn sydd y tu ôl i'r canlyniadau, er enghraifft sut mae'r sefydliad yn rheoli newid. Soniodd am roi llawer mwy ar waith o ran cyfathrebu ac ymgysylltu staff â newid, a galluogi staff i ddeall yr angen am newid a'r effaith y mae'r newid hwnnw'n ei chael mewn ffordd gadarnhaol. At hynny, cyfeiriodd y Cadeirydd at y strategaeth bum mlynedd newydd a phroses glir iawn o gynllunio busnes i alluogi staff i ddeall y strategaeth honno a chysylltu â hi.<sup>32</sup>

## Perfformiad

**24.** Cyflawnodd Archwilio Cymru – neu roedd yn agos at gyflawni – 13 o'i 18 o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) ar gyfer y flwyddyn (cyflawnwyd 15 allan o 18 yn 2020-21<sup>33</sup>), gyda pherfformiad yn erbyn y 5 DPA sy'n weddill yn "ganolbwynt i'n gwaith gwella yn 2022-23"<sup>34</sup>.

**25.** Cafodd y DPA a ganlyn eu graddio fel bod "angen gwelliant":

- Ansawdd Archwilio: targedau 100 y cant o sampl archwilio i'w hasesu'n foddhaol neu'n uwch, a 90 y cant yn dda neu'n uwch. Cyflawnodd Archwilio Cymru 100 y cant yn foddhaol, ond dim ond 75 y cant cystal neu uwch (cyflawnwyd 100 y cant a 100 y cant yn 2020-21).
- Cyfradd llwyddiant hyfforddeion: yn targedu o leiaf 90 y cant o hyfforddeion sy'n llwyddo am y tro cyntaf mewn arholiadau penodedig. Cyflawnodd Archwilio Cymru 83 y cant (cyflawnodd 86 y cant yn 2020-21).<sup>35</sup>

**26.** Cafodd y DPA a ganlyn eu graddio fel bod "angen gwelliant sylweddol":

---

<sup>31</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 61-62

<sup>32</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 63

<sup>33</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, tudalen 19](#)

<sup>34</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 17](#)

<sup>35</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalennau 18 ac 19](#)

---

- Ymgysylltu â chyflogeion: mae targedau yn y sgôr 10 y cant uchaf yn y maes hwn ar gyfer y CSPS diweddaraf. Cyflawnodd Archwilio Cymru 64 y cant (cyflawnwyd y targed yn flaenorol yn 2020-21 gyda pherfformiad o 70 y cant).
- Profiad y cyflogeion: Canran gadarnhaol o sgoriau profiad cyflogeion yn ôl thema yn yr arolwg staff blynyddol; targedau sydd yn y 25 y cant uchaf o sgoriau ar gyfer y CSPS diweddaraf. Cyflawnodd Archwilio Cymru hyn mewn 0 allan o 10 sgôr thema (cyflawnodd 2 o'r 10 sgôr thema yn 2020-21).<sup>36</sup>

**27.** Ers dechrau'r pandemig, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi pwysleisio'r egwyddor "hunan, teulu, gwaith... yn y drefn honno".<sup>37</sup> Y llynedd fe awgrymodd yn sylfaenol, bod morâl wedi cael ei gynnal ond yn ddiarnheul y bu tonnau yr effeithiwyd arnynt yn fwy gan yr amgylchedd ehangach. At hynny, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod ymgysylltu â chyflogeion ar lefel eithriadol o uchel a bod y dangosydd profiad cyflogeion yn darged ymestynnol.<sup>38</sup>

**28.** Tra'n cydnabod bod y targed profiad gweithwyr yn fwiadol heriol, y llynedd mynegodd y Pwyllgor y farn y dylai targedau roi darlun realistig o'r hyn y mae Archwilio Cymru yn anelu at ei gyflawni. Roedd yn argymhell bod:

*"...Archwilio Cymru yn egluro sut ac erbyn pa ddyddiad y mae am gyflawni ei ddangosydd perfformiad allweddol sy'n ymwneud â phrofiad y cyflogeion, sef "Canran sgorau profiad y cyflogeion sy'n gadarnhaol yn arolwg thematig blynyddol y staff" ac yn rhoi rhagor o wybodaeth am y camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd yn y maes hwn."*<sup>39</sup>

**29.** Yn ei ymateb, disgrifiodd Archwilio Cymru weithgaredd yr oedd yn ei wneud ac awgrymodd y byddai'n ystyried pa mor gyraeddadwy yw'r DPA.<sup>40</sup>

**30.** Pan ofynnwyd a yw rhoi'r egwyddor ar waith yn ymarferol wedi newid mewn ymateb i berfformiad sy'n gwaethygu o ran profiad staff, dywedodd y Cadeirydd fod Archwilio Cymru eisiau ymateb yn gadarnhaol i'r dirywiad tra'n cadw'r egwyddor yn ei le:

*"As a result, the board and ELT have maintained that focus on redressing the workload pressures that I mentioned earlier. We've also launched a well-*

---

<sup>36</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 20

<sup>37</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 25

<sup>38</sup> Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, tudalennau 15-17

<sup>39</sup> Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, tudalen 24 ac Argymhelliad 3

<sup>40</sup> Ymateb i waith craffu blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar SAC, 18 Ionawr 2022

---

*being strategy that contains within it a theme around living well and a theme around working well. We've developed a coherent learning and development programme, and that's about supporting changes in audit methodology. We've also encouraged people to come back together in their teams, and we've wanted to empower and enable teams to work out the best way in which they can facilitate work and manage to deliver against the objectives, while at the same time looking after their own well-being, which inevitably is different for everybody individually, so it's been for teams to work out what is the best arrangement for them."*<sup>41</sup>

## **Newidiadau i DPA yn 2022-23**

---

- 31.** Mae Archwilio Cymru yn newid y mesurau ar gyfer y ddau DPA sy'n ymwneud ag ymgysylltu â gweithwyr a phrofiad gweithwyr, wrth symud i'r dyfodol. Yn 2022-23, bydd y mesurau hyn yn targedu'r sgôr meincnod canolrifol, yn hytrach na bod yn y 10 y cant uchaf a'r 25 y cant uchaf, yn y drefn honno.<sup>42</sup>
- 32.** At hynny, mae Archwilio Cymru yn newid y DPA mewn perthynas ag Ansawdd Archwilio. Mae'r DPA ar gyfer 2022-23 yn mynnu bod 100 y cant o'r sampl a aseswyd yn y "ddau categori ansawdd archwilio uchaf".<sup>43</sup>
- 33.** Nododd y Pwyllgor Cyllid blaenorol fod newidiadau i DPAau Archwilio Cymru yn golygu y gall fod yn anodd gwneud cymariaethau. Yn 2020, mynegodd siom ynghylch diffyg gwybodaeth gymharol, gan argymhell "bod modd cymharu mesurau â blynyddoedd blaenorol".<sup>44</sup>
- 34.** Datgelodd y Cadeirydd fod y DPA profiad staff ac ymgysylltu wedi'u hadolygu yng ngoleuni her y Pwyllgor y llynedd. Er bod cyflawni'r gymhariaeth ganradd uchaf ag arolwg CSPS yn parhau i fod yn uchelgais i Archwilio Cymru, mae am i dargedau fod yn ystyrlon, yn gyraeddadwy ac yn ysgogi gwelliant.<sup>45</sup>
- 35.** O ystyried her flaenorol y Pwyllgor, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

---

<sup>41</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 71

<sup>42</sup> [Cynllun Blynyddol 2022-23, tudalen 23](#)

<sup>43</sup> [Cynllun Blynyddol 2022-23, tudalen 22](#)

<sup>44</sup> [Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2020, tudalen 25 ac Argymhelliad 1](#)

<sup>45</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 73

---

*"To have taken a step back from that in the following year, I think you would have challenged us even harder, rightly, this year. So, we felt it was a more realistic ambition, given where we are now."*<sup>46</sup>

**36.** O ran llywio gwelliannau yn dilyn y newidiadau i'r dangosyddion cyflogeion, dywedodd y Cadeirydd:

*"...a percentage score is something that we can look back on and look back at trends over time anyway; we don't lose that in terms of moving to the median score.*

*But also, our view is that this is about driving improvement and about learning as an organisation. So, again, it goes back to wanting to understand what's beneath the scores, so that we can understand the areas that we can improve on, rather than simply benchmarking across. It's useful to have that comparison, but it's not the only element that we feel is important in considering the results from the staff survey."*<sup>47</sup>

**37.** Ymhelaethodd yr Archwilydd Cyffredinol ar y mater o gymaroldeb dros amser:

*"...we're just about to start this year's people survey, which will be on the same basis as the last, but this is the last year of the contract that we have to run the civil service people survey. So, we will be thinking over the next few months about what we put in place after that. The civil service survey is a very, very big one, and it's once a year. Personally, I think we would benefit from having something a little smaller and more flexible, and maybe something we could use through the year to gauge staff experience more in real time. So, this time next year, we'll be looking at equivalent data, but after that, it may be that there is a slight break in comparability if we make that sort of change."*<sup>48</sup>

**38.** Pan ofynnwyd pam y byddai Archwilio Cymru yn ceisio symud oddi wrth arolwg y CSPS – o ystyried yr effaith ar ddata cymharol – dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"We could renew it, but we will weigh up whether the survey that we have at the moment (a) gives us good value for money and (b) is giving us the tools we need to help drive improvement in the organisation. So, it's absolutely*

---

<sup>46</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 76

<sup>47</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 73-74

<sup>48</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 77

*nothing to do with taking an easy way out. There are lots of surveys in this kind of space. They're all focused on the same things fundamentally, which is staff engagement and staff experience, but they're designed in slightly different ways. And, like I said earlier, the civil service people survey is a particularly massive one. Some elements are more relevant than others.*"<sup>49</sup>

## **Ansawdd archwilio**

---

**39.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod Archwilio Cymru wedi parhau "i fuddsoddi mewn datblygu ein methodolegau archwilio a'n trefniadau rheoli ansawdd" yn 2021-22. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu a chymhwyso safonau archwilio newydd, yn ogystal â threialu ac ymestyn gwaith sicrhau ansawdd archwilio.<sup>50</sup>

**40.** Yn 2020, sefydlodd Archwilio Cymru Bwyllgor Ansawdd Archwilio i ddarparu cyngor, cymorth a swyddogaethau monitro. Mae'n cynnwys uwch staff ac Aelod Proffesiynol Annibynnol.<sup>51</sup> Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi yr aseswyd bod 75 y cant o gynhyrchion archwilio yn dda neu'n uwch, yn is na'r targed o 90 y cant ac yn is na'r 100 y cant a gyflawnwyd yn 2020-21.<sup>52</sup>

**41.** Eglurodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio fod Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (neu'r ICAEW) yn sicrhau ansawdd allanol ar sampl gweddol fach o bedwar archwiliad ariannol, gydag un archwiliad heb gyrraedd y targed DPA.<sup>53</sup> Ymhelaethodd yr Archwilydd Cyffredinol ar y pwynt hwn:

*"...it does look like a dramatic drop, 100 per cent to 75 per cent, but that is one out of four, as you say. A few years ago, we weren't publishing this data at all—this was all held internally. I and the board were very keen that we put it out for this kind of scrutiny and challenge, and also that we ramp up the scale of that external review, as we're doing."*<sup>54</sup>

**42.** Er nad oedd unrhyw faterion gyda'r farn archwilio, esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio fod yr ICAEW wedi nodi:

---

<sup>49</sup>Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022 paragraff 145

<sup>50</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 25](#)

<sup>51</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 35](#)

<sup>52</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 25](#)

<sup>53</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 80

<sup>54</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 100

---

*"...a lack of evidence in some cases of sufficient engagement lead review of the work. So, there were e-mail trails, but as far as the audit is concerned, it needs to be on the audit file..."*

*They also identified a lack of clarity, maybe, with regard to complex asset valuations and pension source data..."<sup>55</sup>*

**43.** Ymgwymerwyd â dadansoddiad o wraidd y broblem yn dilyn hynny er mwyn nodi a lledaenu pwyntiau dysgu, a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion ansawdd a'u monitro. Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio fod Archwilio Cymru yn rhoi pwyslais enfawr ar ansawdd, gan ychwanegu:

*"...in the last year alone, we've doubled the amount of external quality assurance of our accounts work and we've introduced external quality assurance of our performance audit work as well, where previously we had had internal reviews and peer reviews with the other audit bodies. So, for us, it's at the heart of everything that we do, our quality has absolutely got to be spot on, so a lot of investment in that area."<sup>56</sup>*

**44.** Aeth Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ymlaen i amlinellu gwaith y Pwyllgor Ansawdd Archwilio:

*"...we've helped to secure additional investment in the central function that supports our audit quality arrangements. Ann-Marie's talked about the QAD reviews carried out by the ICAEW, so we've overseen the extension of those reviews and also the piloting of work beyond financial audit into performance audit, and we've also looked to enhance our support functions in particular specialist areas, like pension valuations and asset valuations, which, overall, help to strengthen our arrangements. We're also looking at having a new quality management system in place by the end of the current calendar year."<sup>57</sup>*

**45.** Tynnodd sylw at gyhoeddiad yr adroddiad ansawdd blynyddol ym mis Hydref 2022 a fydd yn rhoi mwy o fanylion am y gwaith a wnaed i wella ansawdd archwilio.<sup>58</sup>

---

<sup>55</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 81

<sup>56</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 82-83

<sup>57</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 89

<sup>58</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 91

---

## Oedi i Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21

**46.** Mae adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei chyfrifon i'r Archwilydd Cyffredinol i'w harchwilio erbyn 30 Tachwedd yn y flwyddyn ariannol ganlynol ar yr hwyraf. Yna, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol osod gerbron y Senedd ei archwiliad a'i ardystiad o'r cyfrifon hynny o fewn pedwar mis i gael set o gyfrifon anchwiliadwy, hynny yw heb fod yn hwyrach na 30 Mawrth, os yw Llywodraeth Cymru'n bodloni ei dyddiad cau ar gyfer cyflwyno.<sup>59</sup>

**47.** Roedd disgwyl i Gyfrifon Cyfunol 2020-21 Llywodraeth Cymru gael eu llofnodi a'u gosod yn y Senedd cyn diwedd mis Hydref 2021. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hynny tan 5 Awst 2022.<sup>60</sup>

**48.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod yr oedi cychwynnol wedi deillio o ddarparu gwybodaeth ar gyfer y cymorth i fusnesau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig ac archwilio'r cymorth hwnnw. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fater pellach yn ymwneud â digwyddiad ôl-fantolen (a elwir hefyd yn 'ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd'<sup>61</sup>).<sup>62</sup>

**49.** Codwyd y mater o ran yr oedi yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mehefin 2022<sup>63</sup> ac fe'i nodwyd hefyd yn adroddiad y Pwyllgor ar y gwaith craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22 (Mawrth 2022)<sup>64</sup>.

**50.** Mae'r terfyn amser o bedwar mis, sy'n berthnasol i gyrff eraill, wedi'i godi fel mater yn y gorffennol. Yn 2017, adroddodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol ar yr oedi wrth osod cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru.<sup>65</sup>

**51.** Wrth fynd i'r afael â'r oedi sylweddol gyda Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"...this has been a massive thing for us, as you can imagine, this year. So, two statutory requirements that are relevant: one on the Welsh Government to*

---

<sup>59</sup> Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 131

<sup>60</sup> Cyfrifon blynyddol cyfunol Llywodraeth Cymru

<sup>61</sup> IAS 10 Events after the Reporting Period

<sup>62</sup> Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 26 Ionawr 2022, paragraffau 10 ac 11

<sup>63</sup> Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, 29 Mehefin 2022, Eitem 5: Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21

<sup>64</sup> Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22, paragraff 32

<sup>65</sup> Adroddiad ar yr oedi o ran cyflwyno cyfrifon blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015-16 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mai 2017

*deliver an auditable set of accounts to me by the end of November; and then, as you say, for me to complete the audit within four months. The legislation is silent on what should happen if either of those parties fail to deliver on those. That's unusual as far as the Welsh Government is concerned. For other bodies, if I were in that situation, there would be explicit requirements on me to lay a statement before the Senedd. That is something I would welcome.*"<sup>66</sup>

**52.** Yn absenoldeb gofyniad i osod datganiad, teimlai'r Archwilydd Cyffredinol mai'r ffordd fwyaf priodol o hysbysu'r Senedd o'r sefyllfa oedd hysbysu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (neu PAPAC). Aeth yn ei flaen i ddweud y canlynol:

*"I must admit, my focus was on the PAPAC rather than this committee, because not only do I have far more regular contact with that committee than I do with this one, fundamentally, it has the retrospective view of the accounts, and you are rather more forward looking. So, that felt more appropriate to me. But, as I said, I would welcome, after the events of the last year, clarification of the expectations on me, and perhaps the Welsh Government, in the event that this should ever happen again. Legislative change, I suspect, is too much to ask for, but if there's a way to develop some kind of memorandum of understanding that would put some arrangements in place, I would welcome that."*<sup>67</sup>

**53.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor fod yr effaith ar gostau wedi bod yn sylweddol, gan olygu bod angen cryn amser ar ambell un o blith ei staff ar y lefelau uchaf. Awgrymodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio gyfanswm costau ychwanegol o dros £100,000, gyda manylion y costau a dalwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru ac a godwyd mewn ffioedd yn cael eu trafod gyda Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"This committee may recall that, a few years ago, you approved a proportion of the WCF funding we received in part to enable us to produce a commentary on the Welsh Government's account to aid wider scrutiny. We've not done that this year, but all of that resource, and more, has been devoted to the production of two memoranda that are going to the PAPAC*

---

<sup>66</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 103

<sup>67</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 104-105

---



*this week to explain the fundamental issues behind the various qualifications.*"<sup>68</sup>

**54.** Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ddiweddariad ar y dadansoddiad o'r costau archwilio terfynol.

**55.** Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi bod yn cynnal gwaith craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 dros dymor yr hydref.<sup>69</sup>

## **Diweddariad ar y cynllun Teithio a Chynhaliaeth**

**56.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi mai un o flaenoriaethau 2021-22 oedd cwblhau'r adolygiad o'r Cynllun Teithio a Chynhaliaeth a dywed y Cadeirydd fod yr holl staff bellach wedi ymrwymo i'r trefniadau newydd.<sup>70</sup>

**57.** Ym mis Ebrill, daeth gohebiaeth i law'r Pwyllgor oddi wrth Undeb y PCS, yn tynnu sylw at bryderon ynghylch "defnyddio'r bygythiad o ddiswyddo ac ailgyflogi" mewn perthynas â'r Lwfans Teithio. Mae'r Undeb yn awgrymu:

*"...nododd Archwilio Cymru y byddai'n diswyddo ac yn ailgyflogi unrhyw aelod o staff a allai wrthod rhoi caniatâd i newid penodol yn eu contract – yn benodol, dileu lwfans teithio..."*<sup>71</sup>

**58.** Dywedodd undeb y PCS fod hyn yn gosod "cynsail gwael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru" a gofynnodd i'r Pwyllgor adolygu'r datblygiadau hyn ac ystyried:

*"...a ydynt yn gyson ag ethos partneriaeth gymdeithasol y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ac yn cydymffurfio â safonau disgwylidiedig o lywodraethu da."*<sup>72</sup>

**59.** Gan ymateb i'r awgrym bod 'diswyddo ac ailgyflogi' wedi'i fygwth yn ystod y broses o roi'r newidiadau Teithio a Chynhaliaeth ar waith, disgrifiodd yr Archwilydd Cyffredinol arfer o'r fath fel un ffiائد ac yn gwbl i'r gwrthwyneb i'r dull a ddefnyddiwyd gan Archwilio Cymru i negodi newid sylfaenol yng nghyfnod cytundebol pobl. Aeth ymlaen i ddweud:

---

<sup>68</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 107-108

<sup>69</sup> [Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon – Llywodraeth Cymru](#)

<sup>70</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 11](#)

<sup>71</sup> [Llythyr oddi wrth Undeb y PCS, 25 Ebrill 2022](#)

<sup>72</sup> [Llythyr oddi wrth Undeb y PCS, 25 Ebrill 2022](#)

*"The committee will be aware of the background. We were looking to negotiate away a £3,350 annual allowance paid to the majority of our staff, which could not be justified on value-for-money grounds. But it was a contractual entitlement. We never threatened people with dismissal. We went through an extensive period of communication and engagement with staff. We empowered a group of staff to design alternative proposals that we now have in place. We consulted the entire organisation over the summer and made changes to our proposals on the back of that. We went through several months of formal negotiations with our trade unions and made further concessions and changes on the back of that. Our unions then balloted their members and a majority of members voted in favour of acceptance of the new contractual terms."*<sup>73</sup>

**60.** Pan ofynnodd yr undeb beth fyddai'n digwydd pe bai unigolion yn gwrthod arwyddo'r cytundeb newydd, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"We explained that, like any organisations that had been through that process, there would be two fundamental options available to us as an employer: either to impose the new contract unilaterally or to dismiss and re-engage immediately with no loss of employment rights... We would, if we were in that position, choose which one to go with on the basis of the individual circumstances at play, and taking account of advice from our employment legal advisers as well on the risk that it would open up to the organisation. I'm pleased to say that it never came to that because 100 per cent of our staff signed up to the new terms and conditions voluntarily."*<sup>74</sup>

**61.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor ei fod yn falch o'r broses o roi'r newidiadau i Lwfans Teithio ar waith, tra'n cydnabod ei fod yn un o'r pethau mwyaf amhoblogaidd y byddai'n ei wneud yn fewnol ar unrhyw adeg ac yn cydymdeimlo â'r gostyngiad gwirioneddol iawn mewn cydnabyddiaeth ariannol i lawer o bobl. Ychwanegodd:

*"...it was extensive, it was sincere, it was open from the outset, it engaged staff genuinely in a way that I think would be best practice for many organisations taking through such a difficult change."*<sup>75</sup>

---

<sup>73</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 66-67

<sup>74</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 68

<sup>75</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 113

---

**62.** Yn dilyn hynny, cynhaliodd Archwilio Cymru ymarferiad dysgu yn dilyn prosiect, gan nodi gwersi a ddysgwyd ynghylch cyfathrebu ac ymgysylltu chynnwys yr undebau llafur mwy yn gynharach yn y broses.<sup>76</sup>

## Archwilio mewnol a rheoli risg

**63.** Mae archwilwyr mewnol SAC, PricewaterhouseCoopers LLP (PWC), wedi cyhoeddi chwe adroddiad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Graddiwyd pedwar o'r adroddiadau archwilio mewnol fel rhai risg isel ac roedd un, yn ymwneud â rheoli newid, wedi'i raddio'n risg ganolig. Graddiwyd un adroddiad, yn ymwneud â seiberddiogelwch, yn risg uchel. Fodd bynnag, nodwyd bod y canfyddiadau heb fod "yn anarferol" yng nghyd-destun sefydliadau eraill y mae wedi cynnal adolygiadau tebyg ar eu cyfer.<sup>77</sup>

**64.** Eglurodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr adolygiad seiberddiogelwch yn cynnwys ymarfer hacio moesegol a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y mater risg uchel a nodwyd wedi'i ddileu fel bod ganddyn nhw, erbyn hyn, lawer mwy o reolaeth.<sup>78</sup>

**65.** Mewn perthynas â'r adolygiad archwilio mewnol o reoli newid, mae PWC yn cydnabod bod Archwilio Cymru "wedi llwyddo i ddechrau gweithredu tîm Rheoli Newid", ond yn cydnabod fod heriau diwylliannol a gwrthwynebiad i newid yn "llesteirio gallu'r tîm Rheoli Newid i weithredu'n effeithiol".<sup>79</sup> Yn 2021, penododd Archwilio Cymru rywun i swydd newydd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid.<sup>80</sup> Roedd ei Amcangyfrif ar gyfer 2021-22 yn amlinellu Rhaglen Newid gydgyssylltiedig y dyrannwyd £238,000 ar ei chyfer.<sup>81</sup>

**66.** Wrth fynd i'r afael â chanfyddiadau PWC, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol, "one of the main cultural shifts that we're looking to drive in the organisation is to break down some of the barriers and silos that exist within it". Ymhelaethodd ar y mater hwn:

*"One of the major shifts to take us in that direction that we've focused on, especially in the last 12 months, has been to try to make sure that the energies of our change programme are focused on our core work as Audit Wales. So, focused on things that matter to auditors and the delivery of their*

---

<sup>76</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 114

<sup>77</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalennau 73-75](#)

<sup>78</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 154 a 159

<sup>79</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 75](#)

<sup>80</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 90](#)

<sup>81</sup> [Archwilio Cymru – Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022](#)

---

*work. For instance, the implementation of new auditing standards, new auditing software, learning and development for our professional staff and so forth. And I think the more we can do that, the more the organisation as a whole will feel that all our efforts are focused on the things that matter to the organisation most, and in the past, there's been a sense that that hasn't been the case.*"<sup>82</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**67.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau parhaus a berir gan y pandemig ac, yn benodol, ei effaith ar ffyrdd o weithio yn Archwilio Cymru. Mae perfformiad Archwilio Cymru a chyflawniad llwyddiannus ei gynllun a'i amcanion yn 2021-22 yn dyst i ymroddiad a phroffesiynoldeb ei staff. Rydym yn cydnabod yr effaith negyddol y mae dileu'r lwfans teithio wedi'i chael ar staff a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r newid sylweddol hwn, ond yn croesawu ymdrechion yr Archwilydd Cyffredinol i sicrhau bod polisiau sefydliadol yn cynrychioli gwerth am arian. Serch hynny, rydym yn siomedig gyda chanlyniadau'r arolwg staff, sef y categorïau sy'n ymwneud ag ymgysylltiad a phrofiad gweithwyr, arweinyddiaeth a newid, ac amcanion a phwrpas sefydliadol. Croesewir y camau a gymerwyd gan y Bwrdd i fynd i'r afael â'r sgorau hyn, megis y Strategaeth newydd 'Gweithio'n Dda, Byw'n Dda a Bwriadu'n Dda', ac rydym wedi'n calonogi gan y penderfyniad i gyflwyno pwyntiau gwirio amlach i asesu effaith y mesurau hyn. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y mentrau hyn a bydd yn rhoi sylw manwl i unrhyw ganlyniadau cysylltiedig.

**68.** Tra'n cydnabod uchelgeisiau Archwilio Cymru o ran gwella ymgysylltiad gweithwyr a phrofiad gweithwyr, nodwn fod Archwilio Cymru wedi ailystyried pa mor gyraeddadwy yw ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yn y maes hwn yn dilyn gwaith craffu'r llynedd, ac y bydd yn awr yn targedu'r sgôr meincnod canolrifol. Rydym yn adleisio'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol o ran bod yn rhaid i fesurau allu cymharu â blynyddoedd blaenorol, ac rydym o'r farn y dylid adrodd ar fanylion perfformiad yn erbyn DPA newydd Archwilio Cymru a'i fesur blaenorol. Dyma obeithio y bydd y DPA newydd yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac yn helpu i ysgogi gwelliant yn y sefydliad.

**69.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y contract ar gyfer Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS) yn dod i ben a bod Archwilio Cymru yn bwriadu ystyried ai hwn yw'r arolwg mwyaf priodol ar gyfer y sefydliad. Mae'r CSPS yn arolwg cydnabyddedig a sefydledig, a ddefnyddir yn eang gan gyrff cyhoeddus, ac ni ddylid ei ddiystyru heb ystyriaeth briodol. Er ein bod yn cefnogi ystyriaeth gan Archwilio Cymru o arolygon amgen ar sail gwerth am arian ac i gynorthwyo i ysgogi perfformiad yn y maes hwn, pwysleisiwn eto bwysigrwydd ystyried sut y bydd targedau yn erbyn

---

<sup>82</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 150-151

model arolwg newydd yn gyfaradwy â pherfformiad blaenorol y sefydliad, ac i ba raddau y gellir ei feincnodi yn erbyn eraill yn y sector cyhoeddus. Mae cymaroldeb dros amser yn egwyddor allweddol o adrodd corfforaethol da a gall fod anawsterau o ran canfod a yw'r sefydliad wedi gwella heb fesurau cyson. Rydym yn nodi'r awydd am fodel arolwg llai o faint a mwy hyblyg, ac rydym o'r farn y dylid ystyried ategu'r CSPS ag offer cyfathrebu eraill, er enghraifft, arolygon pwls a chylch bywyd wedi'u targedu, i alluogi adborth mwy amserol gan staff ac i fesur llwyddiant mentrau.

**70.** Nodwn fod cyflawni'r DPA ansawdd archwilio yn dibynnu ar sampl fach o bedwar archwiliad yn cael eu hasesu'n dda neu'n uwch, a bod canlyniadau un archwiliad wedi arwain at fethu'r targed yn 2021-22. Fodd bynnag, rydym wedi ein sicrhau nad oedd unrhyw faterion arwyddocaol gyda'r archwiliadau hynny a bod y materion a godwyd wedi cael sylw priodol, gyda phwyntiau dysgu wedi'u lledaenu a materion ansawdd wedi'u monitro. Rydym yn croesawu'r penderfyniad i ddyblu swm y gwaith sicrhau ansawdd allanol ar gyfrifon. Mae'r buddsoddiad pellach mewn datblygu ansawdd archwilio, er enghraifft treialu ac ymestyn gwaith sicrhau ansawdd archwilio, cryfhau meysydd arbenigol a rhoi system rheoli ansawdd newydd ar waith yn ddiweddarach eleni, hefyd yn galonogol.

**71.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a ddarparwyd mewn perthynas â'r oedi cyn i'r Archwilydd Cyffredinol osod Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21. Er ei bod yn siomedig na chawsom ein hysbysu'n uniongyrchol am yr oedi, rydym yn derbyn cais yr Archwilydd Cyffredinol am eglurhad ynghylch y dull y dylai ei gymryd os na all fodloni'r terfyn amser statudol o bedwar mis yn y dyfodol. Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o lywodraethu SAC a swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol, ein diddordebau ni oedd deall y broses weinyddol a gwneud penderfyniadau, a'r costau cysylltiedig, ynghylch yr oedi wrth osod Cyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21. At hynny, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yng ngallu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei rwymedigaethau, ac yn enwedig mewn achosion lle mae'r terfyn amser statudol o bedwar mis wedi'i fethu. Byddem, felly, yn disgwyl cael gwybod am yr oedi o ran bodloni'r terfyn amser statudol o bedwar mis ar gyfer cwblhau archwiliad o gyfrifon.

**72.** Mae Archwilio Cymru wedi nodi bod yr archwiliad o Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21 hefyd wedi mynd i gostau ychwanegol sylweddol o dros £100,000. Nodwn at hynny fod adnoddau a fwriadwyd ar gyfer sylwebaeth ar y cyfrifon hyn wedi'u dargyfeirio yn hytrach i egluro'r materion sylfaenol y tu ôl i gymwysterau'r Archwilydd Cyffredinol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Nodwn y trafodaethau parhaus rhwng Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch faint o'r costau ychwanegol a gaiff eu hariannu gan bob corff, ac rydym yn awyddus i ddeall y rhesymeg dros rannu'r costau ychwanegol.

**73.** Rydym yn cydnabod yr effaith negyddol y mae dileu'r Lwfans Teithio wedi'i chael ar weithwyr Archwilio Cymru ac yn cydnabod y broses helaeth o ymgysylltu sydd wedi'i chynnal gyda staff er mwyn rhoi'r newid hwn ar waith, yn ogystal â thrafodaethau ffurfiol â'r undebau llafur. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr holl weithwyr wedi cytuno i'r telerau ac amodau newydd yn wirfoddol. At hynny, nodwn y pryderon a godwyd gan Undeb y PCS ynghylch y bygythiad o ddiswyddo ac ailgyflogi pe bai gweithwyr yn gwrthod derbyn y newid yn y contract, ac rydym yn condemnio'r defnydd o hynny. Croesewir yr ymarfer dysgu wedi'r prosiect yn dilyn y newidiadau i'r Lwfans Teithio, a bydd y gwersi a ddysgir yn amhrisiadwy wrth i Archwilio Cymru gychwyn ar newid sefydliadol pellach.

**74.** Noda'r Pwyllgor yr awgryma'r archwilydd mewnol bod Archwilio Cymru "wedi llwyddo i ddechrau gweithredu tîm Rheoli Newid", ond mae'n pryderu am yr awgrym bod heriau diwylliannol a gwrthwynebiad i newid yn "llesteirio gallu'r tîm Rheoli Newid i weithredu'n effeithiol". O ystyried y newidiadau diweddar i Lwfans Teithio a maint y newidiadau tebygol yn y dyfodol mewn perthynas â llety, mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr effaith bosibl ar staff a byddai'n croesawu rhagor o fanylion am sut y bydd y tîm Rheoli Newid yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu manylion ei Strategaeth newydd 'Gweithio'n Dda, Byw'n Dda a Bwriadu'n Dda' ynghyd â'r broses o roi'r strategaeth ar waith.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn cynnwys manylion ei berfformiad yn erbyn y targed DPA blaenorol ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr a phrofiad gweithwyr, ochr yn ochr â'i dargedau diwygiedig yn 2022-23.

**Argymhelliad 3.** Wrth ystyried ei drefniadau ar gyfer arolygon staff yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn ystyried cadw'r CSPC, yn asesu offer eraill i wella ei effeithiolrwydd ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar fodolau arolwg amgen a werthuswyd.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y gwaith a wnaed i wella ansawdd archwilio, gan gynnwys manylion y gweithgarwch sicrhau ansawdd penodol a gyflawnwyd ers sgôr 2021-22 a nifer yr archwiliadau a aseswyd ar gyfer sicrhau ansawdd.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn ffurfiol, yn ysgrifenedig, os na all gwblhau archwiliad o fewn y terfyn amser statudol o bedwar mis.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru:

- yn egluro'r rhesymeg y mae'n bwriadu ei mabwysiadu ynghylch rhannu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag archwilio Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, ac
- unwaith y bydd y sefyllfa derfynol wedi'i phennu, yn rhoi manylion am gyfanswm cost yr archwiliad o Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, gan gynnwys faint sy'n ychwanegol at yr amcangyfrif o ffioedd, sut mae'r costau ychwanegol wedi'u rhannu ac esboniad os yw'r dull gweithredu yn wahanol i'r rhesymeg.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion am sut y mae'n rhoi newid ar waith yn y sefydliad ac yn benodol ar ganlyniad yr ymarferiad dysgu ôl prosiect ar gyfer y newidiadau i'r Lwfans Teithio, gan gynnwys sut y bydd y gwersi a ddysgir yn cael eu cymhwyso i'r camau adleoli i swyddfeydd Caerdydd, sydd ar ddod.

### 3. Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

**75.** Mae'r Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad<sup>83</sup> yn crynhoi prif ganfyddiadau archwilwyr SAC, sef RSM UK Audit LLP ('RSM'), mewn cysylltiad â'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Archwilio Cymru mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae hyn yn ofyniad o dan Atodlen 1 i'r Ddeddf.<sup>84</sup>

**76.** Mae RSM yn darparu barn archwilio ddiamod o gyfrifon SAC.<sup>85</sup>

**77.** Bu'r archwiliad yn ystyried risgiau sydd hefyd wedi cael eu hystyried mewn blynyddoedd blaenorol:

- Cydnabyddiaeth refeniw – WIP ac incwm gohiriedig
- Rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol
- Risg i enw da<sup>86</sup>

**78.** Ni nodwyd unrhyw faterion o ran y risgiau hynny. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi dau fater o'r archwiliad.<sup>87</sup>

**79.** At hynny, mae RSM yn nodi un camdatganiad nas addaswyd o £71,000 yn ymwneud â dosbarthu anfonebau cyflenwyr.

#### Cworwm Bwrdd SAC

**80.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd gynnwys naw aelod:

- pum person nad ydynt yn gweithio i SAC (yr aelodau anweithredol)
- yr Archwilydd Cyffredinol, a
- thri o weithwyr SAC (aelodau sy'n gyflogeion).<sup>88</sup>

---

<sup>83</sup> [RSM UK Audit LLP – Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022](#)

<sup>84</sup> [Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013, paragraff 28\(3\) o Atodlen 1](#)

<sup>85</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 107](#)

<sup>86</sup> [RSM UK Audit LLP – Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022](#)

<sup>87</sup> [RSM UK Audit LLP – Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022](#)

<sup>88</sup> [Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013, Atodlen 1, paragraff 1](#)

---



- 81.** Mae'r Bwrdd yn destun cworwm a nodir yn y Ddeddf. Mae'n ei wneud yn ofynnol "na ellir bodloni cworwm ar unrhyw adeg oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol".<sup>89</sup>
- 82.** Y llynedd, nododd RSM na chadwyd at gworwm y Bwrdd mewn un cyfarfod yn 2020-21. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod mwyafrif yr aelodau anweithredol yn cael eu cynnal.<sup>90</sup> Yn ei ymateb, disgrifiodd Archwilio Cymru y mecanweithiau sydd ganddo ar waith i sicrhau bod cworwm yn cael ei fodloni.<sup>91</sup>
- 83.** Unwaith eto, mae archwilwyr SAC yn nodi materion sy'n ymwneud â chworwm yn ei Hadroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad 2021-22. Mewn cyfarfod o'r bwrdd ym mis Hydref 2021 roedd absenoldeb aelod anweithredol yn golygu bod aelodau'r Bwrdd sy'n gyflogeion wedi ymwrthod â phenderfyniadau, ond roeddent yn dal yn bresennol yn ystod trafodaethau'r bwrdd, gan adael y cyfarfod yn unig ar gyfer y penderfyniad a phleidleisio.<sup>92</sup>
- 84.** Mewn cyfarfod arall ym mis Mawrth 2022, mewn ymateb i absenoldeb aelod anweithredol, roedd Kevin Thomas (aelod sy'n gyflogai enwebedig o'r Bwrdd) yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol. Mae RSM yn amlygu bod cyngor cyfreithiol blaenorol wedi dod i'r casgliad bod y Ddeddf yn mynnu bod mwyafrif yr aelodau anweithredol yn "bresennol" (yn hytrach na "yn bresennol ac yn pleidleisio"). Mae'n awgrymu, felly:

*"...given employee board members were still physically present during the discussions, there is a risk that any decisions may be invalidated by the presence of employee members (although they did leave the meeting for the decision and voting).*

*We recommend that in such instances, the relevant persons are not present where relevant.*"<sup>93</sup>

- 85.** Holodd y Pwyllgor pam fod materion cworwm wedi'u nodi eto yn 2021-22 a gofynnodd sut mae'r bwrdd yn rhoi argymhelliad yr archwilwyr allanol yn y maes hwn ar waith. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi'i gydnabod yn y gorffennol nad yw'r ddarpariaeth cworwm yn y Ddeddf

---

<sup>89</sup> [Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013, Atodlen 1, paragraff 28\(3\)](#)

<sup>90</sup> [Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2021 tudalennau 24-26 ac Argymhelliad 8](#)

<sup>91</sup> [Ymateb i waith craffu blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar SAC, 18 Ionawr 2022](#)

<sup>92</sup> [RSM UK Audit LLP – Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, tudalen 6](#)

<sup>93</sup> [RSM UK Audit LLP – Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, tudalen 6](#)

---

yn darparu ar gyfer mecanwaith effeithiol i ddarparu ar gyfer absenoldeb aelodau anweithredol, gan ychwanegu:

*"It's also recognising that the Act is trying to ensure that there is a strong staff perspective brought into board through the unique roles of the elected employee members. Also, we have the nominated employee member as a board member as well. So, we at the board are trying to balance those two aspects of the Act, which aren't always able to work well together."<sup>94</sup>*

**86.** O'r materion cworwm a adroddwyd gan RSM yn 2021-22, esboniodd y Cadeirydd:

- Roedd un achlysur yn ymwneud â diwrnod cyntaf cyfarfod deuddydd yn cynnwys trafodaethau anffurfiol ynglŷn â'r strategaeth bum mlynedd, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud pan fydd cworwm llawn y diwrnod canlynol;
- roedd yr achlysur arall yn ymwneud â chyfarfod a alwyd ar fyr rybudd i drafod yr adolygiad Teithio a Chynhaliaeth, gyda'r aelodau sy'n gyflogeion a'r aelod cyflogedig enwebedig yn rhoi safbwynt y staff drwy'r trafodaethau hynny ond heb fod yn bresennol ar gyfer unrhyw un o'r penderfyniadau a wnaed.<sup>95</sup>

**87.** Dywedodd y Cadeirydd y cymerir ymagwedd bragmatig, gyda chylch gorchwyl y Bwrdd yn nodi'r opsiwn o naill ai gofyn i aelod sy'n gyflogai adael y cyfarfod neu ohirio gwneud penderfyniad nes bod cworwm wedi'i adfer. Aeth yn ei blaen i ddweud:

*"We understand the guidance provided and what the statute lays out that we should do, which is that people should leave the room. But, we have reviewed that on an annual basis in response to the auditor's report, and we've concluded that we are content with the approach that we're taking on that."<sup>96</sup>*

## Lwfans teithio

**88.** Mae'r ail fater a nodwyd yn ymwneud â'r ddarpariaeth ar gyfer y newidiadau i'r Lwfans Teithio (£1.086 miliwn). Mae'r adroddiad yn nodi bod y swm wedi'i gytuno a'i dalu drwy'r gyflogres ym mis Ebrill 2022, ond roedd yr amseriad a'r swm yn hysbys ar 31 Mawrth 2022. Mae RSM yn nodi bod elfen newidiol fechan o'r setliad na chytunwyd ar y dyddiad hwn ac mae'n fodlon â'r datgeliadau a wnaed yn y cyfrifon.<sup>97</sup>

---

<sup>94</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 116-117

<sup>95</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 118-119

<sup>96</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 120

<sup>97</sup> [RSM UK Audit LLP – Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad – y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022](#)

---

## Safbwynt y Pwyllgor

**89.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pryderon a godwyd gan RSM yn ei Adroddiad ar Ganfyddiadau'r Archwiliad ynghylch cworwm y Bwrdd ac yn nodi'r sicrwydd a roddwyd gan Gadeirydd y Bwrdd na chymerwyd unrhyw benderfyniadau ffurfiol tra nad oedd gan y Bwrdd gworwm.

## 4. Cynllun Blynyddol 2022-23 ac Adroddiad Interim 2022-23

**90.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd i baratoi Cynllun Blynyddol ac o leiaf un Adroddiad Interim ar y cyd bob blwyddyn.<sup>98</sup>

**91.** Mae Cynllun Blynyddol 2022-23<sup>99</sup> yn nodi'r rhaglenni gwaith yn ystod y flwyddyn a chafodd ei osod ar 31 Mawrth 2022.

**92.** Mae'r Adroddiad Interim<sup>100</sup> yn darparu asesiad o'r graddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol a SAC yn cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol 2022-23, ac yn rhoi gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol. Gosodwyd yr Adroddiad Interim gerbron y Senedd ar 31 Hydref 2022.

### Cynllun Blynyddol 2022-23

**93.** Mae Cynllun Blynyddol Archwilio Cymru 2022-23 yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn, yn ogystal â'i uchelgeisiau a'i DPA tymor hwy. Mae'n nodi effaith barhaus y pandemig ac yn amlygu bwriad Archwilio Cymru i roi mwy o bwyslais yn ei gynnyrch archwilio ar "adroddiadau thematig". At hynny, mae'n cyfeirio at ffocws ar "gyflwyno'r amserlen adrodd i batrymau cyn y pandemig" ar gyfer ei waith archwilio. Yn weithredol, mae'r Cynllun Blynyddol yn amlinellu "dychwelyd i rywfaent o weithredu yn y swyddfa tra'n cynnal hyblygrwydd gweithio o bell".<sup>101</sup>

**94.** Mae'r Cynllun hefyd yn awgrymu y bydd Archwilio Cymru yn ystyried:

*"...cydbwysedd cyffredinol ein gwaith archwilio ar draws gwahanol feysydd polisi a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 a chyd-destun ehangach y saith nod llesiant i Gymru."<sup>102</sup>*

### Cyflawni Archwiliad

---

**95.** Mae Archwilio Cymru yn nodi chwe cham gweithredu blaenoriaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei waith archwilio yn 2022-23:

---

<sup>98</sup> [Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013](#)

<sup>99</sup> [Cynllun Blynyddol 2022-23](#)

<sup>100</sup> [Adroddiad Interim, Hydref 2022](#)

<sup>101</sup> [Cynllun Blynyddol 2022-23, tudalennau 4-5](#)

<sup>102</sup> [Cynllun Blynyddol 2022-23, tudalen 12](#)

- Datblygu ei fodel gweithredu ymhellach;
- Datblygu ei raglen waith;
- Datblygu prosesau gwybodaeth reoli mwy effeithlon, hygyrch a, lle bo'n briodol, awtomataidd, gan gynnwys gweithredu system rheoli amser ac adnoddau newydd;
- Datblygu elfen cyflawni archwiliadau ei gynllun gweithlu er mwyn iddo gefnogi'r gwaith o gyflawni ei rhaglen waith yn fwy effeithiol ac atgyfnerthu ei strategaeth dysgu a datblygu;
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddylanwadu ar y ddatl am ddyfodol archwilio cyhoeddus yn y DU ac ehangu ei mewnbwn i ddatblygiadau archwilio a chyfrifyddu proffesiynol eraill;
- Defnyddio technoleg a dadansoddeg data i barhau i foderneiddio'r ffordd y mae'n cyflawni ei waith archwilio.<sup>103</sup>

## Rhedeg y busnes

---

**96.** Mae Archwilio Cymru yn nodi pum cam blaenoriaeth i gefnogi'r gwaith o redeg y busnes yn 2022-23:

- Penderfynu beth fydd ei ffyrdd 'normal newydd' o weithio wrth iddo symud i gyfnod adfer o ran y pandemig;
- Cwblhau ei waith ar ddatblygu strategaeth pum mlynedd a 'map ffyrdd' ar gyfer cyflawni ei huchelgeisiau cyffredinol;
- Cwblhau ei waith ar ddatblygu cynigion i ddiwallu ei anghenion adeiladau yn y dyfodol, er mwyn galluogi penderfyniad gan y Bwrdd yn ddiweddarach yn 2022-23;
- Ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau helaethach yn ei holl brosesau penderfynu;
- Cyhoeddi a gweithredu cyfres ddiwygiedig o amcanion cydraddoldeb sy'n addas i'r diben.<sup>104</sup>

---

<sup>103</sup> Cynllun Blynyddol 2022-23, tudalen 17

<sup>104</sup> Cynllun Blynyddol 2022-23, tudalen 20

---

## Mesurau perfformiad

---

**97.** Mae mesurau perfformiad ar gyfer 2022-23 fwy neu lai yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Mae 11 o fesurau'n ymwneud â chyflawni archwiliadau, gyda'r saith sy'n weddill yn ymwneud â "rhedeg y busnes". Fodd bynnag, mae rhai newidiadau, gan gynnwys y rheini i'r targedau a drafodwyd ym Mhennod 3.<sup>105</sup>

## Strategaeth Pum Mlynedd

**98.** Ym mis Mai 2021, cytunodd Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol Archwilio Cymru fod angen strategaeth tymor canolig fanylach. Mae Archwilio Cymru yn nodi cefnogaeth eang i'r cyfeiriad teithio arfaethedig, a chefnogaeth iddo.<sup>106</sup>

**99.** Ym mis Mehefin 2022, lansiodd Archwilio Cymru ei strategaeth bum mlynedd, 'Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein Strategaeth 2022-27', yn amlinellu cynllun gyda mwy o bwyslais ar adrodd thematig a datblygu ystod o allbynnau i wneud defnydd o "ddeallusrwydd" a geir trwy archwilio ariannol. Mae'r strategaeth yn nodi tri maes ffocws lle bydd yn "blaenoriaethu camau gweithredu":

- Rhaglen archwilio strategol, deinamig ac o ansawdd uchel;
- Defnyddio dull wedi'i dargedu o gyfathrebu a dylanwadu er mwyn sicrhau effaith;
- Diwylliant a model o weithredu sy'n ein galluogi i ffynnu nawr ac yn y dyfodol.<sup>107</sup>

**100.** Pan ofynnwyd sut y byddai adnoddau'n cael eu lledaenu ar draws y penawdau 'Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli', dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"Assure, explain and inspire has been our headline for four years now. It's not possible to put precise numbers on it, because they all obviously interconnect. But, if I had to, the guts of our work is about assurance. So, probably 60 to 70 per cent of our staff resource and effort goes into that, maybe 20 to 30 per cent on the inspire piece, which is about driving improvement in the wider public sector, and the remainder on the explain strand, which is about explaining some of the issues that the public sector faces to the wider public."<sup>108</sup>*

---

<sup>105</sup> Cynllun Blynyddol 2022-23, tudalennau 22-23

<sup>106</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22, tudalen 48

<sup>107</sup> Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein Strategaeth 2022-27

<sup>108</sup>Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022 paragraff 186

---

**101.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y bydd cynlluniau blynyddol y dyfodol yn dangos yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud yn y flwyddyn honno er mwyn symud ymlaen ar y ffordd i gwblhau'r strategaeth.<sup>109</sup>

## Adroddiad Interim

**102.** Mae'r Adroddiad Interim yn nodi "bron pob darn o waith a gynlluniwyd naill ai wedi'i gyflawni neu'n mynd rhagddo yn ôl y cynllun". Fodd bynnag, mae'n nodi nad yw Archwilio Cymru wedi gallu cyflawni ei darged o gwblhau pob archwiliad Llywodraeth Leol erbyn diwedd mis Hydref. Mae'n dyfynnu'r ffaith bod rhai cyrff a archwilir wedi cyflwyno cyfrifon yn hwyr a bod "ansicrwydd parhaus ynghylch y seilwaith cyfrifo mewn cyrff cyhoeddus" ymhlith y rhesymau dros hynny. Cwblhawyd corff y gwaith ar y GIG ym mis Mehefin, ac eithrio yn Betsi Cadwaladr, lle nodwyd problemau yn ystod gwaith Archwilio Cymru. Erbyn diwedd mis Medi roedd y rhan fwyaf o archwiliadau llywodraeth ganolog wedi'u cwblhau.<sup>110</sup>

**103.** Dywed yr Adroddiad Interim fod rhaglen waith genedlaethol Archwilio Cymru "yn cadw hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau sy'n newid". Mae'n cyfeirio at yr ymgynghoriad ar raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol (Mawrth 2022)<sup>111</sup>, ond yn nodi i hwn gael ei lansio gan mai megis dechrau dod i'r amlwg oedd effaith y gwrthdaro yn Wcráin a phwysau costau byw.<sup>112</sup> O ran ei archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol, mae Atodiad 2 yn nodi:

*"Rydym yn adolygu ein cynlluniau'n rheolaidd, gan ystyried ein blaenoriaethau archwilio, ein cyd-destun darparu adnoddau ni ein hunain a chapasiti'r cyrff a archwilir gennym i ymgysylltu â ni. Byddwn yn dod â gwaith newydd ychwanegol i'n rhaglen yn ystod gweddill 2022-23."*<sup>113</sup>

**104.** Mae'r Adroddiad Interim yn nodi'r cynnydd yn erbyn DPAAu Archwilio Cymru. Er ei bod yn anodd asesu cynnydd yn erbyn rhai dangosyddion, nid yw dau ddangosydd yn ymwneud â therfynau amser/prydlondeb yn cael eu bodloni ar hyn o bryd:

- Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd erbyn y terfyn amser statudol gofynnol (targed: 100 y cant, perfformiad ar 30 Medi: 93 y cant).

---

<sup>109</sup>Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022 paragraff 186

<sup>110</sup> [Adroddiad Interim, Hydref 2022, tudalennau 5-6](#)

<sup>111</sup> [Ymgynghoriad: Ceisio Eich Barn am Raglen Waith yr Archwilydd Cyffredinol, Mawrth 2022](#)

<sup>112</sup> [Adroddiad Interim, Hydref 2022, tudalen 7](#)

<sup>113</sup> [Adroddiad Interim, Hydref 2022, tudalen 27](#)

---

- Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnir yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol (targed: 90 y cant, perfformiad ar 30 Medi: 82 y cant).<sup>114</sup>

**105.** Gan amlinellu sut mae gwaith archwilio llywodraeth leol yn dod yn ei flaen yn ystod y flwyddyn, cyfeiriodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio at nifer o heriau sylweddol:

*"We've also had an issue I won't bore you all with—a very technical issue to do with accounting for infrastructure assets—which is impacting local government bodies. The Chartered Institute of Public Finance and Accountancy, the professional accountancy body that deals with much of this, and the Financial Reporting Advisory Board have been trying to resolve this issue, but so far unsuccessfully. It looks like it's going to need a longer term solution. The Welsh Government are therefore likely to make a regulation in the short term to see us through to be able to complete the 2021-22 audits of local government."*<sup>115</sup>

**106.** Dywedodd fod yr heriau hyn wedi arwain at ailddyrranu staff o archwilio perfformiad i waith archwilio cyfrifon er mwyn bodloni'r amserlenni statudol. Yn ei dro, mae hyn wedi effeithio ar y DPA ar gyfer cynhyrchion archwilio allweddol eraill, gan gyflawni naw o blith 11 o allbynnau cynlluniedig ar amser.<sup>116</sup>

**107.** Mae'r Adroddiad Interim yn nodi bod Archwilio Cymru, ar y cyd ag asiantaethau archwilio eraill y DU yn y Fforwm Archwilio Cyhoeddus, wedi ymateb i ymgynghoriad yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar ddyfodol proffesiwn archwilio'r DU. At hynny, mae'n sôn am gyfres o sgysiau gyda'r Trysorlys a Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau posibl, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd ansawdd gwaith Archwilio Cymru yn dod yn destun goruchwyliaeth gan bwyllgor o'r Senedd.<sup>117</sup>

**108.** Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trafodaethau hyd yn hyn, gan gynnwys sut mae'r mater yn dod yn ei flaen ledled y DU.<sup>118</sup>

---

<sup>114</sup> Adroddiad Interim, Hydref 2022, tudalennau 18-21

<sup>115</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 378

<sup>116</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 379

<sup>117</sup> Adroddiad Interim, Hydref 2022, tudalen 10

<sup>118</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 383

---



**109.** Tynnodd sylw at yr angen i gadw'r Pwyllgor yn ymwybodol o drafodaeth ehangach ynghylch goruchwyllo gwaith yr archwilwyr cyffredinol, fel y cyfryw, ac ychwanegodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"It's in the early stages, but obviously this committee is the natural home for oversight functions, and you oversee us at the moment. But, what Ann-Marie is describing is a much more specific and detailed role in respect of the quality of our work. We touched on our quality indicators in the recent session, but it would be a significant extension of that."*<sup>119</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**110.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y ffactorau allanol sy'n effeithio ar berfformiad Archwilio Cymru yn erbyn y ddau DPA sy'n ymwneud â chyflawni archwiliadau i amserlenni penodol ac yn croesawu'r camau a gymerwyd i liniaru'r risg o golli terfynau amser statudol.

**111.** Nodir hefyd y trafodaethau ehangach sy'n digwydd mewn perthynas â goruchwyliaeth annibynnol o waith yr archwilwyr cyffredinol a chrosawn y cyfle i ddysgu mwy am y datblygiadau hyn maes o law.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y mater technegol sy'n ymwneud ag asedau seilwaith a'r effaith bosibl ar gyflawni ei waith archwilio.

---

<sup>119</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraffau 384 a 387.

## 5. Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024

**112.** Cafodd yr Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024 ("yr Amcangyfrif")<sup>120</sup> ei baratoi ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd a'i osod gerbron y Senedd ar 1 Tachwedd 2022, yn unol ag adran 20(1) o'r Ddeddf.<sup>121</sup>

**113.** O dan y Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a SAC osod eu hamcangyfrif ar y cyd o incwm a threuliau gerbron y Senedd erbyn 1 Tachwedd fan bellaf. Mae Rheol Sefydlog 20.22 yn datgan y canlynol:

*"Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18.10(i) ystyried adroddiad sy'n cynnwys yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Senedd heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y pwyllgor cyfrifol, ar ôl iddo ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddynt."*<sup>122</sup>

### Cyd-destun

**114.** Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol Ddatganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru (CGC) i'w hystyried wrth wneud cynigion cyllidebol.<sup>123</sup>

**115.** Ym mis Gorffennaf 2021, cytunodd y Pwyllgor y dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol barhau i ddilyn y Datganiad presennol o Egwyddorion<sup>124</sup> wrth baratoi eu dogfennau cyllidebol.

**116.** Ar 14 Gorffennaf 2022, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor i nodi gwahanol ffactorau i lywio'r gwaith blaengynllunio ariannol ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol wrth iddynt baratoi eu cyllidebau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24.<sup>125</sup>

---

<sup>120</sup> [Rhan 1 – Cwmpas y Gyllideb – Amcangyfrif 2023-2024](#)

<sup>121</sup> [Deddf Archwilio Cyhoeddus \(Cymru\) 2013](#)

<sup>122</sup> [Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheol Sefydlog 20.22](#)

<sup>123</sup> [Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, Mai 2019](#)

<sup>124</sup> [Datganiad o Egwyddorion, Gorffennaf 2021](#)

<sup>125</sup> [Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 14 Gorffennaf 2022](#)

---

## Trosolwg

**117.** Ar gais y Pwyllgor Cyllid blaenorol yn dilyn ei waith craffu ar yr Amcangyfrif ar gyfer 2020-21 a'i addasu<sup>126</sup>, cyflwynir Amcangyfrif 2023-24 mewn dwy ran:

- Rhan 1 – Cwmpas y Gyllideb
- Rhan 2 – Gwybodaeth ategol

**118.** Mae Rhan 2 o'r Amcangyfrif yn nodi bod Archwilio Cymru yn ceisio cynnydd yn ei alwad sylfaenol ar gyllid adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru o 3.8 y cant (neu £328,000) yn 2023-24 o gymharu â'i Amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2022-23. Mae hyn yn gynydd o £8.6 miliwn i £8.9 miliwn. Mae'r ffigur yn cynnwys £8.6 miliwn o refeniw a £310,000 o gyfalaf.<sup>127</sup>

**119.** Mae Archwilio Cymru yn nodi bod y newid arian parod i'w waelodlin yn gynydd o "ychydig o dan 3%", ond nid yw'r Amcangyfrif yn nodi gwerth arian parod ar wahân na llinell sylfaen arian parod.<sup>128</sup>

**120.** Mae Archwilio Cymru yn cyfeirio at ei gynydd o ran ei 'linell sylfaen', nad yw'n cynnwys:

- Gostyngiad ariannol i'r lwfans teithio (gostyngiad o £354,000)
- y gostyngiad cylchol yng nghostau'r Fenter Dwyll Genedlaethol (gostyngiad o £130,000).<sup>129</sup>

**121.** Mae cyfanswm yr adnoddau a nodir yn yr Amcangyfrif, gan gynnwys yr eitemau hyn felly, yn is na llinell sylfaen 2022-23, sef £8.5 miliwn.<sup>130</sup>

**122.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor mai cynnig 'no-frills' yw'r Amcangyfrif, gyda chynnydd mewn cyflog a phwysau chwyddiannol eraill yn sbardun mwyaf i'r cynnydd o 3 y cant mewn arian parod.<sup>131</sup> Aeth ymlaen i ddweud:

*"It is going to be challenging for us to live within and it looks, essentially, to do what we feel is the absolute minimum to protect the basic functioning of*

---

<sup>126</sup> Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Cyllid (y Bumed Senedd) – Amcangyfrif wedi'i Addasu o'r Incwm a Threuliau ar gyfer y Flwyddyn a Daeth i Ben ar 31 Mawrth 2021 a'r Cynllun Ffioedd 2020-21, 15 Ionawr 2020

<sup>127</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, Arddangosyn 3

<sup>128</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, Tudalen 3

<sup>129</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, Arddangosyn 3

<sup>130</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, Arddangosyn 3

<sup>131</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 217

*the organisation whilst recognising the incredibly challenging financial environment in which we're all operating.*"<sup>132</sup>

**123.** Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y newid arian parod i waelodlin costau referniw a chyfalaf Cronfa Gyfunol Cymru ar gyfer 2022-23. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol:

*"...our baseline for 2022-23 for both cash and resource is the £8.608 million that's set out in exhibit 3 of the second part of the estimate, along with the changes that make up the new baseline for 2023-24 of the 8.936 million. So, that represents an overall increase in resource of 3.8 per cent. The difference, then, in terms of the cash is that that includes a non-cash adjustment of £80,000, which relates to the IFRS 16-related depreciation amount, and when you exclude that, that brings the cash increase down to just under 3 per cent..."*<sup>133</sup>

**124.** At hynny, mae Archwilio Cymru yn cyfeirio at yr angen am arian ychwanegol ar gyfer costau dadfeilio yn y wybodaeth ategol, y mae'n ei feintio fel uchafswm o £550,000.<sup>134</sup>

**125.** Mae'r Amcangyfrif hefyd yn cynnwys gwybodaeth am incwm ffioedd, y disgwylir iddo gynyddu £1.1 miliwn (neu 7.0 y cant) o £15.1 miliwn i £16.1 miliwn. Mae Archwilio Cymru yn nodi, gyda'i gilydd, y bydd cyfanswm ei gyllideb yn cynyddu 5.4 y cant.<sup>135</sup>

## Gofyniad arian parod net

**126.** Mae'r Amcangyfrif yn gwneud addasiadau eraill nad ydynt yn arian parod: ar gyfer costau dibrisiant a llog (-£360,000) a thaliadau rhent les (£280,000) a symudiadau mewn cyfalaf gweithio (£550,000).<sup>136</sup> Ar ôl gwneud yr addasiadau hynny, cyfanswm y gofyniad arian parod net ar gyfer 2023-24 yw £8.9 miliwn.<sup>137</sup>

**127.** Roedd Amcangyfrif gwreiddiol 2022-23<sup>138</sup> a'r Gyllideb Atodol Gyntaf ddilynol ar gyfer 2022-23, yn cynnwys addasiadau sy'n gysylltiedig â phryniant y Lwfans Teithio ac addasiadau ar

---

<sup>132</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 219

<sup>133</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 229

<sup>134</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, Tudalen 27](#)

<sup>135</sup> [Rhan 1 – Cwmpas y Gyllideb – Amcangyfrif 2023-2024](#)

<sup>136</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, 27](#)

<sup>137</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol - Amcangyfrif 2022-2023, tudalen 7](#)

<sup>138</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Tachwedd 2021, paragraffau 22-23](#)

---

gyfer cyfrifo ar gyfer prydesi o dan Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (neu *IFRS*) 16.<sup>139</sup> Ni ellir, felly, eu cymharu'n uniongyrchol â'r Amcangyfrif ar gyfer 2023-24.

**128.** Mewn blynyddoedd blaenorol, mae Archwilio Cymru wedi cynnwys addasiad ar gyfer eitemau eraill nad ydynt yn arian parod, er enghraifft y tâl dibrisiant ar gyfer asedau eraill (er enghraifft, ei dechnoleg gwybodaeth), yn ogystal ag un arall, a ddisgrifiwyd ganddo fel symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac y mae Archwilio Cymru wedi dweud sy'n ymwneud â chroniadau diwedd blwyddyn. Mae Archwilio Cymru wedi amlinellu bod y rhain yn hynod o anodd eu rhagweld.<sup>140</sup> Yn Rhan 2 o'r Amcangyfrif, dywed Archwilio Cymru mai ei daliadau dibrisiant a llog (nad ydynt yn arian parod) *IFRS* 16 yw £360,000 ar gyfer 2023-24 ac mae hyn y'r un fath â chyfanswm y tâl dibrisiant sydd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad o gostau referniw.<sup>141</sup>

**129.** Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol fod symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn cynnwys costau dadfeiliad, ond heb fod yn gyfan gwbl. Dywedodd nad yw dadansoddiad wedi'i gynnwys oherwydd y trafodaethau masnachol sensitif sy'n cael eu cynnal ynghylch costau dadfeiliad swyddfa Caerdydd.<sup>142</sup> Fodd bynnag, mae Rhan 2 o'r Amcangyfrif yn nodi bod £550,000 wedi'i gynnwys yn yr Amcangyfrif ar gyfer dadfeiliadau, gydag unrhyw arian parod nas defnyddiwyd yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.<sup>143</sup>

**130.** Fe wnaeth y Pwyllgor ofyn cwestiynau ynghylch y symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn ystod y gwaith craffu y llynedd. Nododd ddiffyg esboniad ynghylch symudiadau, gan fynd ymlaen i ddweud:

*"O ran yr addasiad ar gyfer amcangyfrifon o symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn fwy cyffredinol, ac o ystyried sylwadau Archwilio Cymru ar anhawster amcangyfrif yr agwedd hon ar yr Amcangyfrif, byddai disgrifiad llawnach o'r elfen hon hefyd yn fuddiol."*<sup>144</sup>

## Cymariaethau â 2022-23

**131.** Mae Archwilio Cymru wedi cyflwyno dau Amcangyfrif Atodol i'r Pwyllgor ar gyfer 2022-23. Dychwelodd yr Amcangyfrif Atodol Cyntaf £394,000 o arian parod i Gronfa Gyfunol Cymru a

---

<sup>139</sup> [Llythyr gan Archwilio Cymru, 1 Mehefin 2022](#)

<sup>140</sup> [Amcangyfrif 2020-21, tudalen 33](#)

<sup>141</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 27](#)

<sup>142</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraffau 315 a 317.

<sup>143</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 27](#)

<sup>144</sup> [Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2021, tudalen](#)

gwneud addasiadau ar gyfer IFRS 16.<sup>145</sup> Mae'r Ail Amcangyfrif Atodol (sydd eto i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y Senedd) yn cynyddu cyfalaf o £575,000 a refeniw £100,000 yn 2022-23 (yn ogystal â newidiadau eraill IFRS 16).<sup>146</sup>

**132.** Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod Arddangosion 1 a 3 yn y wybodaeth ategol yn Amcangyfrif 2023-24 yn defnyddio'r ffigur cyfanswm adnoddau yn Amcangyfrif gwreiddiol 2022-23 (£8.6 miliwn) fel y llinell sylfaen, er bod y dadansoddiad o gyllid refeniw yn Atodiad 1 yn nodi ei fod yn defnyddio'r Amcangyfrif Atodol Cyntaf. Cyfeirir at yr Ail Amcangyfrif Atodol yn y naratif yn unig.<sup>147</sup>

**133.** Wrth fynd i'r afael â dull Archwilio Cymru o gymharu Amcangyfrif 2023-24 â'r cyllid a ddarparwyd yn 2022-23, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"It's a slightly confusing picture. The core comparisons made in the estimate are between our estimate for next year and the position after the first supplementary from last year. So, that was the one that addressed the travel and subsistence review and the consequential payback of funding. So, there should not be anywhere in the estimate any direct comparison either with the original estimate that we put forward last year or with the second supplementary. Had we done that, ironically, we could be sitting here presenting ourselves in a rosier picture, because on paper, it would look like we were asking for a lower increase. But that wouldn't have been a legitimate or meaningful comparison to make..."<sup>148</sup>*

## Newid cyllid gwaith Archwilio Perfformiad Lleol

**134.** Yn ei Amcangyfrif blaenorol ar gyfer 2022-23, nododd Archwilio Cymru gynigion i newid rhywfaint o waith perfformiad lleol a ariennir gan ffioedd i'w ariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru.<sup>149</sup> Yn dilyn gwaith craffu y llynedd, dywedodd y Pwyllgor y byddai deall barn cyrff a archwilir yn hanfodol er mwyn cael cefnogaeth y Pwyllgor. Argymhellodd fel a ganlyn:

---

<sup>145</sup> Llythyr gan Archwilio Cymru, 1 Mehefin 2022

<sup>146</sup> Llythyr gan Archwilio Cymru, 7 Medi 2022

<sup>147</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024

<sup>148</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 221

<sup>149</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2022-2023, tudalen 19

---

*"Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi adborth manwl o'i ymgynghoriad ar ffioedd, yn enwedig mewn perthynas â'r newid cyllid arfaethedig yn 2023-24."*<sup>150</sup> [Argymhelliad 21]

**135.** Ysgrifennodd y Pwyllgor wedyn at Archwilio Cymru i nodi y byddai angen hefyd dangos cefnogaeth ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r cynnig cyn cyflwyno Amcangyfrif 2023-24.<sup>151</sup>

**136.** Mae Archwilio Cymru wedi newid yn y gorffennol i symud gwaith penodol i'w ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na ffioedd.<sup>152</sup> Wrth graffu ar yr Amcangyfrif hwnnw, cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol fod newid adnodd o waith archwilio a ariennir gan ffioedd i weithgarwch a ariennir o'r Gronfa yn bwynt pwysig o ran egwyddor.<sup>153</sup>

**137.** Fodd bynnag, nid yw'r Amcangyfrif yn cynnwys y newid cyllid. Mae'n nodi fel a ganlyn:

*"Nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu cadarnhau, cyn cyflwyno'r Amcangyfrif hwn, ei bod yn cefnogi gwneud yr addasiadau mewn awdurdod lleol a chyllid y corff iechyd angenrheidiol i ddal WCF yn ddiniwed. O ganlyniad, nid yw'r newid yn cael ei adlewyrchu yn yr Amcangyfrif hwn. Bydd hynny'n cyfyngu ar ein gallu i ymgymryd â gwaith trawsbynciol a system gyfan, a gafodd groeso eang gan randdeiliaid yn ystod datblygiad ein strategaeth 5 mlynedd."*<sup>154</sup>

**138.** Fe wnaeth Archwilio Cymru gynnwys y cynnig i newid cyllid yn ei ymgynghoriad ar ei Gynllun Ffioedd drafft 2023-24.<sup>155</sup> Dim ond tri ymateb a gafodd yn y maes hwn, gan gynnwys ymateb gan Lywodraeth Cymru. Yn ôl Archwilio Cymru, "mae'r eglurhad hwn yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol" i Lywodraeth Cymru ar bwyntiau a godwyd yn ei ymateb.<sup>156</sup>

**139.** Ar ôl ceisio cadarnhad o gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r cynnig gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar ddechrau mis Hydref, esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr ymateb a ddaeth i law ddiwedd y mis yn gofyn am ragor o sgysiau gyda nhw ac yn nodi y gallai swyddogion deimlo bod angen iddynt gyfeirio'r mater at Weinidogion cyn dod i benderfyniad terfynol.<sup>157</sup>

---

<sup>150</sup> [Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2021, Argymhelliad 21](#)

<sup>151</sup> [Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid, 26 Medi 2022](#)

<sup>152</sup> [Amcangyfrif 2020-21, tudalen 17](#)

<sup>153</sup> [Y Pwyllgor Cyllid \(y Bumed Senedd\), Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2019, paragraff 48](#)

<sup>154</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 22](#)

<sup>155</sup> [Ymgynghoriad ar Raddfeydd Ffioedd 2023-24](#)

<sup>156</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 37](#)

<sup>157</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 \[drafft\], paragraff 233](#)

**140.** O ran mynd ar drywydd y cynnig ymhellach a'r amserlenni dan sylw, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"That depends on the Welsh Government, rather than me. It doesn't strike me as a particularly complex matter... So, of course, I want to pursue it further, and we'll try to address any questions that the Welsh Government has, but what I don't want it to turn into is another version of the very extended debate that we had around the reform of the public audit legislation..."<sup>158</sup>*

**141.** Cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol, hyd yn oed pe bai modd datrys y materion yn gyflym, y byddai ailgyflwyno'r Amcangyfrif yn gymhleth, gan nodi y byddai'n hapus i gymryd arweiniad gan y Pwyllgor.<sup>159</sup>

## Costau refeniw

**142.** Mae'r Amcangyfrif yn amlinellu mai refeniw yw'r rhan fwyaf o gostau Archwilio Cymru, gyda thua 34 y cant o'r costau hynny'n cael eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer 2023-24. Ariennir y gweddill trwy ffioedd a godir am waith archwilio.<sup>160</sup>

## Staff

---

**143.** Y gost unigol fwyaf sylweddol i Archwilio Cymru yw staff, sef tua 84 y cant. Mae Archwilio Cymru yn cyflogi 288 o staff cyfwerth ag amser llawn ar gost o £20.4 miliwn ar gyfer 2023-24.<sup>161</sup>

**144.** Mae'r Amcangyfrif yn cynnwys cyfanswm cynnydd o £702,000 ar gyfer 'costau staff uwch' o gymharu â'r Amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2022-23. O'r cynnydd hwn, mae £272,000 yn gysylltiedig ag elfen ariannu Cronfa Gyfunol Cymru (Mae Arddangosyn 3 yn amlinellu £221,000 o gost sy'n gysylltiedig â 'chost uwch gwaith archwilio'). At hynny, mae Archwilio Cymru yn cynnwys cynnydd cyffredinol o £800,000 i gyfrif am newidiadau i safonau archwilio (ISA315), a ariennir yn llawn gan ffioedd uwch.<sup>162</sup>

**145.** Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch faint o'r cynnydd o £272,000 sy'n ymwneud â chost uwch archwilio, y dyfarniad cyflog ac a oedd unrhyw un yn ymwneud â gwneud gwaith ychwanegol. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cynnydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyfarniad cyflog yn 2023-24, yn cwmpasu cost barhaus y dyfarniad cyflog yn 2022-23 ac yn

---

<sup>158</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 236

<sup>159</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 238

<sup>160</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 36](#)

<sup>161</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalennau 10 a 30](#)

<sup>162</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalennau 4 a 19](#)

---



ystyried y gostyngiad yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Eglurodd nad oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer gwaith archwilio ychwanegol nac ar gyfer mwy o staff.<sup>163</sup>

**146.** Mae'r Amcangyfrif yn amlinellu bod Archwilio Cymru, fel cyrff cyhoeddus eraill, yn wynebu pwysau chwyddiant. Mae'n nodi bod y dyfarniad cyflog o 3 y cant yn 2022-23 yn fwy na'r hyn a ganiateir yn yr Amcangyfrif a bod yn rhaid ei ariannu drwy wneud arbedion ar gyllidebau eraill.<sup>164</sup> Y llynedd, tynnodd Archwilio Cymru sylw at faterion recriwtio a chadw.<sup>165</sup> Mae Archwilio Cymru yn ailadrodd hyn yn ei Amcangyfrif, gan nodi fel a ganlyn:

*"Mae Archwilio Cymru yn cystadlu'n uniongyrchol gyda'r sector preifat i ddenu a chadw'r staff proffesiynol y mae eu hangen arnom. Rydym yn gynyddol yn methu â chynnig yr un lefel o gydnabyddiaeth ariannol ag a gynigir gan gwmnïau archwilio'r sector preifat, gan olygu mai colli talent ac arbenigedd yw'r risg fwyaf un i'r sefydliad."*<sup>166</sup>

**147.** Mae Amcangyfrif 2023-24 yn cynnwys codiad cyflog "cymedrol" pellach.<sup>167</sup> Pan ofynnwyd iddo am lefel y codiad cyflog a'r cymorth sydd ar gael i staff ar raddau is, esboniodd y Cadeirydd:

*"We've allowed a 4 per cent increase, but for budget purposes. However, as I'm sure you appreciate, the exact level will be decided through negotiation, but that's what's been allowed in the estimate. In terms of the support that we've made available for lower grades, we've taken that issue very seriously and, over recent years, we've structured pay awards to target a greater benefit to staff at the lower end of the pay scales. We've retained that approach for 2022-23. However, initially, the unions asked that we gave a flat rate settlement and that we aim to deliver a quick settlement, understandably in the sense that that would mean that staff would have money in their pockets as quickly as possible. However, whilst the trade unions then did change their position later, by that point we decided it would be best to finalise a straightforward across-the-board settlement so that we could reach that conclusion as quickly as possible. I'd add that we have also recognised*

---

<sup>163</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 263

<sup>164</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 5](#)

<sup>165</sup> [Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2021, tudalen 44](#)

<sup>166</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 5](#)

<sup>167</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 5](#)

---

*that the removal of the travel allowances, as we've brought to you before, would impact our trainees and apprentices to a greater extent than our more highly paid staff. So, we ensured that these, for our lowest paid staff, were fully protected by introducing a new benchmarked salary range for trainees and apprentices.*"<sup>168</sup>

**148.** Mae'r Amcangyfrif yn cyfeirio at fuddsoddiad sydd wedi'i gynnwys yn ei Amcangyfrif 2022-23 ar gyfer buddsoddi mewn ansawdd archwilio (£80,000 o gyllid Cronfa Gyfunol Cymru).<sup>169</sup> Er y rhagwelwyd hyn yn wreiddiol am ddwy flynedd, mae Amcangyfrif 2023-24 yn nodi fel a ganlyn:

*"Mae'n amlwg bellach i ni, a'r proffesiwn archwilio cyfan ledled y byd, bod graddfa a chyflymder datblygu archwilio, ynghyd â disgwyliad cynyddol rheoleiddwyr, yn golygu y bydd angen buddsoddiad parhaus a chyson mewn ansawdd archwilio.*"<sup>170</sup>

## Gohebiaeth Undebau Llafur

---

**149.** Cafodd y Pwyllgor hefyd ohebiaeth ar gyflogau staff gan undeb Prospect ac Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (neu'r PCS). Mae'r llythyr yn dweud bod y ddau undeb mewn anghydfod gyda'r Bwrdd ar ôl iddo orfodi'r codiad cyflog o 3% ar gyfer 2022-23.<sup>171</sup>

**150.** Mae'n nodi bod yr undebau wedi cytuno i weithio gyda'r rheolwyr i drafod cyflogau a gwobrau 2023-24 yn llawer cynharach nag yn y blynyddoedd blaenorol. Mae'r undebau wedi cyflwyno cais am 10%. Mae'r llythyr yn trafod chwyddiant, recriwtio a chadw. Dywed:

*"Ar ran ein haelodau, gofynnwn i chi ystyried a yw'r amcangyfrif sydd ger eich bron yn ddigonol i ganiatáu codiad cyflog priodol i staff yn 2023-24 sy'n mynd peth o'r ffordd tuag at helpu Archwilio Cymru yn ei anawsterau recriwtio a chadw ac yn darparu tegwch a dyfarniad cyflog rhesymol i staff.*"<sup>172</sup>

**151.** Wrth fynd i'r afael â llythyr y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf, a oedd yn awgrymu "bydd yn rhaid rheoli'r bil cyflogau â'r adnoddau presennol."<sup>173</sup>, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol eu bod yn ceisio cwmpasu cymaint o'r pwysau chwyddiant a wynebir

---

<sup>168</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 265

<sup>169</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2022-2023, tudalen 7

<sup>170</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 10

<sup>171</sup> Llythyr gan ganghennau Undeb y PCS ac Undeb Prospect, 3 Tachwedd 2022

<sup>172</sup> Llythyr gan ganghennau Undeb y PCS ac Undeb Prospect, 3 Tachwedd 2022

<sup>173</sup> Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 14 Gorffennaf 2022

---

ganddynt o'u hadnodd presennol gyda tharged arbedion o £500,000 y flwyddyn nesaf. Ychwanegodd:

*"We feel it is unrealistic not to give some sort of pay award to our staff next year. You'll have seen the letter from our trade unions, who are understandably disappointed with the settlement we were able to give this year. I don't think they'll be delighted with the figure we're able to settle on next year. But, coupled with the pressure that I mentioned from competition with the firms, we feel we've got to go some way to give staff greater remuneration next year, but we're doing our best to eat up as much of that additional cost from within our existing resource."*<sup>174</sup>

**152.** Amlinellodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol sut mae pryderon yr undebau llafur yn cael eu hymgorffori mewn penderfyniadau ynghylch cyflog:

*"We have very regular meetings with our trade unions partners on pay at the moment. We're having fortnightly meetings to discuss that. Of course, we recognise the concerns that they've set out in the letter, we recognise the huge pressures on staff with cost-of-living issues, but we have had to be open with the trade unions in saying that we don't think we'll be able to meet or even come close to the uplift that they're looking for of 10 per cent across the board on salaries. We do benchmark with other organisations as part of our work, so that very much influences our thinking when we make decisions around pay."*<sup>175</sup>

**153.** Dywedodd fod Archwilio Cymru a'r undebau llafur yn archwilio a allai mecanweithiau eraill ar gyfer trafodaethau cyflog yn y dyfodol fod yn ddefnyddiol, megis yr arolwg blynyddol o oriau a mynegai enillion.<sup>176</sup>

## Yswiriant Gwladol

---

**154.** Roedd Amcangyfrif 2022-23 yn cynnwys £51,000 o gyllid Cronfa Gyfunol Cymru sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol.<sup>177</sup> Cyfanswm cost y cynnydd i Archwilio Cymru oedd £145,000, gyda ffioedd hefyd yn cynyddu i gyfrif am y cynnydd.

---

<sup>174</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraffau 266-267

<sup>175</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 270

<sup>176</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 271

<sup>177</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 8](#)

---

**155.** Nid yw'n glir o'r Amcangyfrif sut mae'r newid mewn cyfraniadau YG yn cael ei drin, yn dilyn y gostyngiad mewn cyfraddau YG o fis Tachwedd 2022 ymlaen.<sup>178</sup>

**156.** Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd unrhyw gynlluniau i gyflwyno Amcangyfrif atodol pellach yn 2022-23 i ddychwelyd unrhyw gyllid a ddyrannwyd ar gyfer YG ac na fydd ei angen mwyach, gan ychwanegu:

*"...for 2023-24, the timing of the announcement meant that we were actually able to reflect the latest NI rates in this estimate. That's also reflected in reduced fee rates in the draft fee scheme as compared to the ones that we consulted on. So, we consulted on a 5.5 per cent increase, but that's now been reduced to 4.8 per cent."*<sup>179</sup>

## **Astudiaethau Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol**

---

**157.** Mae'r Amcangyfrif yn nodi bod rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn cael ei chynnal i "roi cymorth i waith craffu'r Senedd" a'i bod yn cael ei chyflwyno i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd. At hynny, dywed, "yn gynyddol, rydym hefyd yn cefnogi gwaith pwyllgorau eraill y Senedd", ac mae wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer y meysydd gwaith hyn yn 2023-24 yn unol â'i gynnydd arfaethedig yn y gyfradd ffioedd.<sup>180</sup>

**158.** Er bod y rhan fwyaf o gymorth Archwilio Cymru yn cael ei sianelu i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, amlygodd yr Archwilydd Cyffredinol fod llawer iawn o waith yn mynd rhagddo y tu ôl i'r llen i gefnogi Cadeiryddion, Aelodau a staff, gan dynnu'n arbennig o drwm ar amser staff uwch. Cyfeiriodd hefyd at ystyriaeth pwyllgorau eraill o adroddiadau Archwilio Cymru a chefnogaeth i Aelodau unigol, megis ar Filiau Aelodau Preifat. Ychwanegodd:

*"We don't discuss the cost implications of things like that with individual Members or committees, as I say, because it is baked into our WCF funding, and I, for one, feel as though it's a really important part of what we do. Your national audit office ought to be supporting you as a Parliament in the round, not just through the PAPAC."*<sup>181</sup>

---

<sup>178</sup> Llywodraeth y DU: [Reversal of National Insurance Increase takes effect today, 6 Tachwedd 2022](#)

<sup>179</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 284

<sup>180</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 21](#)

<sup>181</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 265

---

**159.** Pan ofynnwyd iddo sut mae gwerth astudiaethau llywodraeth genedlaethol a lleol yn cael eu hasesu o ran cefnogi pwyllgorau, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol mai rôl y Pwyllgor oedd craffu a phenderfynu ar y ffordd orau o ddarparu adnoddau ar gyfer eu gwaith.<sup>182</sup> Wrth asesu gwaith perfformiad yn benodol, ychwanegodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"...the first place we'd go to is the feedback from those who are on the receiving end, those who receive our reports. We did a big exercise with our stakeholders just in spring of this year to assess their views on our work. I'll just quote a few figures: 95 per cent felt that the auditor general, or Audit Wales, was an independent and authoritative communicator on governance and stewardship; 96 per cent felt they'd gained useful insight that they otherwise wouldn't have done; 91 per cent felt that our work helped drive improvement for public services. So, I think those are pretty stellar feedback scores. I'm not complacent about it, though, at all. So, we're in the process internally at the moment of adopting some international standards of best practice in relation to our performance work, set by the international body that represents audit agencies around the world."<sup>183</sup>*

## TGCh

---

**160.** Mae Archwilio Cymru yn bwriadu gwario £66,000 ychwanegol ar Seiberddiogelwch a TGCh yn 2023-24, a bydd £60,000 ohono'n cael ei ariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Amlinellwyd Seiberddiogelwch fel risg uchel yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Archwilio Cymru 2021-22, a drafodwyd ym Mhennod 3.

**161.** Yn ôl Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol, diben y buddsoddiad hwn yw er mwyn:

*"...put in place a cyber incident response contract so that in the event that we do have a suspected or actual attack we're able to call on specialist support immediately to help us firstly find out how the attack happened, look to plug that gap as soon as possible, and also then to advise us on how to repair any damage to systems and information that have occurred as part of that. Of course, we won't necessarily get an attack—a successful attack—each year, so the sorts of contracts we're looking at are ones where you can actually repurpose the fee if there isn't an attack on cyber security investments,*

---

<sup>182</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 280

<sup>183</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 281

---

*strengthening to systems, et cetera, so that, in any one year, the fee is always put to good use.*<sup>184</sup>

## Hyfforddiant allanol

---

**162.** Mae Archwilio Cymru yn nodi cynnydd yn ei gyllideb ar gyfer hyfforddiant allanol o £63,000 yn 2023-24, y mae £50,000 ohono yn ymwneud â chostau uwch sy'n gysylltiedig â hyfforddiant ariannol a chaiff ei ariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Amcangyfrif yn nodi bod y cynnydd yn gysylltiedig â'i hyfforddeion graddedig.<sup>185</sup>

**163.** Ar hyn o bryd, mae Archwilio Cymru yn cyflogi tua 60 o hyfforddeion graddedig a phrentisiaid. Mae cyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn darparu ar gyfer cyfleoedd secondiad, yn gwella amrywiaeth ac yn cefnogi costau hyfforddi.<sup>186</sup>

**164.** Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio fod y cynnydd o £50,000 yn ymwneud â'r cymhwyster cyfrifeg proffesiynol ar gyfer tua 50 o hyfforddeion, o ganlyniad i'r angen i fynd allan i dendr am gyflenwr newydd y flwyddyn nesaf. Tra bydd Archwilio Cymru yn ceisio sicrhau gostyngiad, ar ôl negodi gostyngiad eithaf sylweddol yn flaenorol, disgwylir cynnydd mewn costau, er y bydd unrhyw warged yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.<sup>187</sup>

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

---

**165.** Yn 2022-23, cytunodd y Pwyllgor i gynnydd o £80,000 i gyllid y Fenter Twyll Genedlaethol mewn perthynas â gwelliannau penodol i Gymru a fyddai'n cefnogi cyrff cyhoeddus i gynnal gwiriadau banc a gwiriadau statws masnachu ar sefydliadau sydd wedi gwneud cais am gyllid cymorth busnes COVID. Dywedodd Archwilio Cymru, yn ogystal â chostau untro o £35,000 yn 2022-23, y byddai yna gostau parhaus o £45,000.<sup>188</sup>

**166.** Mae costau cyffredinol y Fenter Twyll Genedlaethol hefyd £130,000 yn llai nag yn 2022-23 oherwydd natur gylchol cyllid y cynllun (rhagwelir y bydd yn cynyddu gan y swm cyfatebol yn 2024-25).<sup>189</sup>

---

<sup>184</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 288

<sup>185</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalennau 13 a 23](#)

<sup>186</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 23](#)

<sup>187</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 295

<sup>188</sup> [Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2021, tudalen 32](#)

<sup>189</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 24](#)

---

## Cyflenwadau a gwasanaethau eraill

---

**167.** Mae Arddangosyn 1 yn amlinellu cyfanswm costau ychwanegol o £128,000 yn 2023-24 ar gyfer "cyflenwadau a gwasanaethau eraill", y mae £43,000 ohono yn gysylltiedig â Chronfa Gyfunol Cymru.<sup>190</sup>

**168.** Yn ôl Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol, mae'r cynnydd yn adlewyrchu codiadau chwyddiant mewn costau parhaus ar gyfer cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau megis ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol, yswiriant a'r cynnydd o 28 y cant yn ffioedd archwilio allanol Archwilio Cymru ei hun.<sup>191</sup>

## Cyfalaf

**169.** Mae Archwilio Cymru yn gofyn am £310,000 o fuddsoddiad cyfalaf yn 2023-24. Cyflwynir hyn o dan ddau bennawd, ar draws 2022-27.<sup>192</sup> Mae'r Amcangyfrif yn awgrymu bod hyn yr un peth â 2022-23. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, nid yw Archwilio Cymru yn rhoi cyfrif am Ail Amcangyfrif Atodol 2022-23 yn y wybodaeth a gyflwynwyd. Mae hynny'n cynyddu cyfalaf o £575,000 i £885,000 yn 2022-23 i gefnogi adleoli swyddfa Archwilio Cymru yng Nghaerdydd (a hefyd yn lleihau'r cais ar gyfer 2023-24).<sup>193</sup> Er bod yr Amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2022-23 yn cynnig cynnydd sylweddol mewn cyfalaf yn 2023-24 at ddibenion tebyg.

## Y Strategaeth TGCh

---

**170.** Mae blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf blynyddol cylchol o £110,000 ar gyfer strategaeth TGCh Archwilio Cymru.<sup>194</sup>

## Rhaglen newid

---

**171.** Yn 2023-24, gofynnir am £200,000 o gyfalaf ar gyfer Rhaglen Newid Archwilio Cymru. Mae hynny'n cynnwys:

- **Gweithleoedd yn y dyfodol:** Dywed Archwilio Cymru, "dyma ein prosiect newid mwyaf sylweddol hyd yma" ac mae'n cyfeirio at y newidiadau a nodwyd yn ei Ail Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022-23<sup>195</sup> a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Medi. Mae'r Amcangyfrif yn nodi y bydd gwerth y buddsoddiad yn Rhaglen Newid Archwilio

---

<sup>190</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, Arddangosyn 1](#)

<sup>191</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 299

<sup>192</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 25](#)

<sup>193</sup> [Llythyr gan Archwilio Cymru, 7 Medi 2022 ac Ail Amcangyfrif Atodol 2022-23, Medi 2022](#)

<sup>194</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 25](#)

<sup>195</sup> [Ail Amcangyfrif Atodol 2022-23, Medi 2022](#)

---

Cymru ym mlynyddoedd 2024-25, 2025-26 a 2026-27 yn dyblu, i £400,000 y flwyddyn.<sup>196</sup>

- **“Ein Strategaeth Ddigidol”:** Mae'r Amcangyfrif yn nodi bod Archwilio Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn offer digidol i sicrhau y gall gyflawni ei waith “mor effeithlon ac effeithiol â phosibl”. Yn 2023-24 mae'n bwriadu buddsoddi yn y canlynol:
  - cwblhau datblygiad meddalwedd platfform archwilio newydd ar gyfer ei waith archwilio ariannol a pherfformiad fel ei gilydd;
  - datblygiad arfaethedig ei wefan allanol i ddiwallu gofynion rhanddeiliaid yn well; a
  - gwelliannau i'w systemau gwybodaeth reoli.<sup>197</sup>

**172.** Sicrhodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol y Pwyllgor y bydd yr holl gyllid a gafwyd yn sgil Ail Amcangyfrif Atodol 2022-23 yn cael ei ddefnyddio i gwblhau adleoli swyddfa Caerdydd erbyn mis Mawrth 2023. O'r buddsoddiad cyfalaf o £200,000 y gofynnwyd amdano ar gyfer Rhaglen Newid Archwilio Cymru yn 2023-24, nododd fod £30,000 yn ymwneud â phrosiect gweithleoedd y dyfodol i wneud gwelliannau i swyddfeydd Abergele a Phenllergaer.<sup>198</sup>

**173.** O ran y buddsoddiad cyfalaf a ragwelir yn dyblu i £400,000 yn 2024-25 a'r ddwy flynedd ddilynol, dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol:

*“...that's just an indicative increase at the moment. It reflects our digital strategic ambitions, which we've set out in our five-year strategy, both in terms of how we run our organisation and in terms of how we deliver our audit work. It's too early for us, really, to have firm plans at this stage. And, of course, if we don't require that, then we'd adjust the estimate accordingly in the year in which we submit it.”<sup>199</sup>*

## Arbedion

**174.** Mae Archwilio Cymru yn nodi ei fod yn ymateb i bwysau costau drwy nodi arbedion yn ei gyllidebau di-dâl, lle bo modd. Mae'n cyfeirio at ddileu'r lwfans teithio sefydlog a'r arbedion sy'n

---

<sup>196</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 25

<sup>197</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 26

<sup>198</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 331

<sup>199</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 333



gysylltiedig â'r newid hwnnw, y rhagwelir y byddant yn £200,000 yn dilyn diwedd trefniadau trosiannol yn 2024.<sup>200</sup> Mae'r Amcangyfrif yn amlinellu disgwyliad o ostyngiad o tua 60 y cant "o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol" o ran cyfanswm y gwariant ar deithio a chynhaliaeth.<sup>201</sup>

**175.** At hynny, mae'r Amcangyfrif yn amlinellu £220,000 o arbedion sy'n gysylltiedig ag adleoli swyddfeydd arfaethedig ym mis Mawrth 2023.<sup>202</sup>

**176.** Ymrwymodd Archwilio Cymru i arbedion fel rhan o newidiadau i'w drefniadau Teithio a Chynhaliaeth. Dychwelodd £354,000 yn ei Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2022-23<sup>203</sup> ac roedd disgwyl iddo ddychwelyd £354,000 yn 2023-24 er mwyn ad-dalu'r cyllid a ddefnyddiwyd ar gyfer y pryniant. Rhoddir cyfrif am y ffigur hwn yn Arddangosyn 1 yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2023-24, y tu allan i'r llinell sylfaen, ochr yn ochr â'r newid blynyddol yng nghyllid y Fenter Twyll Genedlaethol.<sup>204</sup>

**177.** At hynny, mae'r Amcangyfrif yn amlinellu gostyngiadau mewn costau teithio o £68,000, costau llety o £74,000 a gostyngiad o £35,000 yng nghyllid y Fenter Twyll Genedlaethol am flwyddyn.<sup>205</sup>

## Llety

### Addasiadau IFRS 16

---

**178.** Ar gyfer 2023-24, bydd Archwilio Cymru yn arwyddo les newydd ar swyddfa yn y Capital Quarter ac yn dod â phrydles yn Heol y Gadeirlan i ben. Mae angen yswiriant adnoddau ychwanegol o £80,000 ar gyfer IFRS 16 yn ymwneud â dibrisiant, nid oes angen arian parod ychwanegol.<sup>206</sup>

### Dadfeilio

---

**179.** Mewn gohebiaeth yn ymwneud â'i Ail Gyllideb Atodol 2022-23, tynnodd Archwilio Cymru sylw at y ffaith y byddai angen rhywfaint o arian parod ychwanegol i fodloni ei rwymedigaethau o dan y brydles ar gyfer Heol y Gadeirlan. Darpariaeth adfeiliadau gyffredinol Archwilio Cymru oedd £650,000 o adnoddau (nad ydynt yn arian parod).<sup>207</sup>

---

<sup>200</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 6

<sup>201</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 13

<sup>202</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 6

<sup>203</sup> Llythyr gan Archwilio Cymru, 1 Mehefin 2022

<sup>204</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, Arddangosyn 1

<sup>205</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, Arddangosyn 1

<sup>206</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 27

<sup>207</sup> Llythyr gan Archwilio Cymru, 7 Medi 2022

**180.** Mae'r Amcangyfrif yn nodi y bydd angen uchafswm o £550,000 o arian parod.<sup>208</sup>

**181.** Gan fod darpariaeth adnoddau wedi'i hadeiladu yn y Cyfrifon, nid yw'r tâl hwn yn effeithio ar y cynnydd cyffredinol mewn adnoddau. Fodd bynnag, bydd angen arian parod ar Archwilio Cymru i ariannu'r tâl. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol fod symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn cynnwys costau dadfeiliad.<sup>209</sup>

**182.** Pan ofynnwyd a allai'r symudiad mewn cyfalaf gweithio ar gyfer costau dadfeiliadau fod yn gliriach, esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio:

*"...in terms of resource accounting, you would want to, and be required to, show how resource tallies or is reconciled to your net cash requirement, and movement in working capital enables you to do that. Because, obviously, something like dilapidations doesn't necessarily cost you money, as you make it a provision every year. And increasing your debtors or creditors doesn't actually cost you money. But what it does is it affects that balance between the amount of resource we need and the cash we need, and that's why it's been set out the way it has. But we can certainly look at a new way of doing it next time."<sup>210</sup>*

## Costau posibl yn y dyfodol

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

---

**183.** Ym mis Gorffennaf, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad<sup>211</sup> ar yr estyniad arfaethedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wyth corff ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys cyrff nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol ar eu cyfer a rhai cyrff lle nad oes gan yr Archwilydd Cyffredinol drefniadau archwilio perfformiad lleol i ymgorffori'r gwaith y bydd hyn yn ei olygu ynddynt. Cynigir y bydd y newid yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.<sup>212</sup>

**184.** Os bydd yn ofynnol i Archwilio Cymru gyflawni ei ddyletswyddau o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â'r cyrff hyn, bydd yn ofynnol iddo wneud hynny erbyn mis Mawrth 2025. Dywed y bydd hyn yn effeithio ar ffurf ei raglen waith ddewisol, a bydd

---

<sup>208</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 28](#)

<sup>209</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 315

<sup>210</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 321

<sup>211</sup> Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: [Cyrff cyhoeddus ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant \(Rhan 2\) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

<sup>212</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 29](#)

angen adnoddau ychwanegol o 2024-25. Gallai canlyniad yr ymgynghoriad olygu bod y gwaith hwnnw'n gorfod dechrau'n gynt na'r disgwyl, ac mae Archwilio Cymru yn awgrymu y gallai hyn arwain at Amcangyfrif Atodol yn 2023-24.<sup>213</sup>

**185.** O ran goblygiadau posibl yr estyniad arfaethedig ar adnoddau, cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"...we've not built anything into the 2023-24 estimate. So, we're hoping that we wouldn't be required to do additional significant amounts of additional work in that year. If we were to, we might have to come back to the committee...depending on how the consultation pans out—and I know the future generations commissioner has recommended that it ought to be more bodies—that potentially has a significant impact on the costs that we will have to bear to fulfil the duties that rest with me under the Act."*<sup>214</sup>

**186.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr holl waith sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei gyflawni o fewn elfen ariannu Cronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na ffioedd, ac eithrio Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.<sup>215</sup>

**187.** Yn dilyn hynny, rhannodd yr Archwilydd Cyffredinol ymateb Archwilio Cymru i'r ymgynghoriad drwy ohebiaeth, ac eglurodd sut mae'r dyletswyddau sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u hariannu:

*"I'r cyrff llywodraeth leol ac iechyd perthnasol, yr ydym, o'r cychwyn cyntaf, wedi ymgorffori 'r gwaith hwn o fewn y cynlluniau a'r ffioedd archwilio perfformiad cyffredinol i'r cyrff perthnasol heb unrhyw godiad yn y ffioedd hynny i adlewyrchu'r dyletswyddau ychwanegol sy'n deillio o'r Ddeddf. Yn llywodraeth ganolog, roedd y sefyllfa yr oeddwn yn ei disgrifio o ran codi ffioedd am waith yn Llywodraeth Cymru a CNC yn gysylltiedig â'r cylch adrodd cyntaf yn arwain at fy adroddiad statudol ym Mai 2020. Yn y cylch cofnodi cyfredol, yr rydym wedi bod yn mabwysiadu'r dull o ymgorffori gwaith o dan y Ddeddf ym mhob corff llywodraeth ganolog perthnasol fel rhan o'r cyllid yr ydym yn ei dderbyn gan Gronfa Gyfunol Cymru."*<sup>216</sup>

---

<sup>213</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 29](#)

<sup>214</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 345

<sup>215</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 346

<sup>216</sup> [Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol, 11 Tachwedd 2022](#)

---

## Cynllun Ffioedd Drafft 2023-24

### Trosolwg

---

**188.** Bwriedir i tua 66 y cant o wariant Archwilio Cymru gael ei dalu o ffioedd yn 2023-24. Yn ôl yr Amcangyfrif, mae Archwilio Cymru yn “ymwybodol iawn o’r pwysau ariannol” ar y sector cyhoeddus.<sup>217</sup> Mae incwm ffioedd yn cael ei lywodraethu gan y Cynllun Ffioedd, a gymeradwyir gan y Pwyllgor Cyllid. Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor y llynedd, mae Archwilio Cymru yn cynnwys Cynllun Ffioedd drafft ar gyfer 2023-24 yn yr Amcangyfrif.<sup>218</sup>

**189.** 4.8 y cant yw’r cynnydd cyfartalog mewn cyfraddau ffioedd sydd wedi’u cynnwys yn y Cynllun Ffioedd drafft.<sup>219</sup>

**190.** Mae’r Cynllun Ffioedd drafft yn dweud bod angen i Archwilio Cymru “gydnabod pwysau costau byw” ar ei staff ac wedi gwneud darpariaeth ar gyfer codiadau cyflog yn unol â gweddill y sector cyhoeddus.<sup>220</sup>

**191.** Yn ei Amcangyfrif, dywed Archwilio Cymru, yn ogystal, ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23, ei bod yn ofynnol i Archwilio Cymru gymhwyso safon archwilio ddiwygiedig (Safon Ryngwladol ar Archwilio, ISA315). Mae Archwilio Cymru yn crynhoi’r newid fel a ganlyn:

*“Yn fras, mae’r newidiadau hyn yn gofyn am waith manylach i adnabod, dadansoddi ac asesu risgiau y gallai’r cyfrifon fod wedi’u camddatgan yn berthnasol.*

*Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i ni ddefnyddio archwilwyr â chymwysterau uwch a mwy o brofiad ar yr archwiliadau hynny y mae’r safon yn berthnasol iddynt – gan gynyddu ein costau staff a’r ffioedd cysylltiedig ar gyfer y gwaith...”<sup>221</sup>*

**192.** Mae hyn yn golygu, er bod cynnydd cyfartalog o 4.8 y cant yn cael ei amlinellu, bydd graddfeydd ffioedd sy’n gysylltiedig â’i archwiliad o gyfrifon yn cynyddu tua 12-18 y cant. Yn ôl

---

<sup>217</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 14

<sup>218</sup> Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2021, Argymhelliad 19

<sup>219</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 14

<sup>220</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 35

<sup>221</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 15

---

Archwilio Cymru, “amcangyfrif yw ar hyn o bryd a chaiff ei adolygu ar ôl rhoi ein dull diwygiedig ar waith yn hanner cyntaf 2023”.<sup>222</sup>

**193.** Yn ôl Archwilio Cymru, er y disgwylir y bydd archwiliadau “yn enwedig ym mlwyddyn gyntaf gweithredu’r safon” yn gofyn am ddefnyddio mwy o staff cymwys, “nid yw’n glir ar hyn o bryd a fydd y cynnydd hwn yn cael ei gynnal mewn blynyddoedd yn y dyfodol gan y bydd hyn yn debygol o ddibynnu ar ffactorau risg mewn cyrff unigol a archwilir”.<sup>223</sup>

**194.** Mae Archwilio Cymru yn rhagweld y bydd incwm ffioedd yn cynyddu £11 miliwn neu 7.0 y cant o £15.1 miliwn i £16.1 miliwn.<sup>224</sup>

**195.** Dywed Archwilio Cymru ei fod yn ymwybodol bod cwmnïau archwilio’r sector preifat wedi ysgrifennu at gleientiaid yn eu hysbysu bod y ffioedd hynny’n debygol o godi hyd at 20 y cant o ganlyniad i’r gofyniad newydd.<sup>225</sup>

## Ymgynghori

---

**196.** Ymgynghorodd Archwilio Cymru â’r holl gyrff a archwilir a grwpiau cynrychioliadol ar ei raddfeydd ffioedd arfaethedig ar gyfer 2023-24, a oedd yn caniatáu ar gyfer cynnydd amcangyfrifedig o 5.5 y cant mewn cyfraddau ffioedd. Daeth 17 o ymatebion i law, a ddywedodd wrthynt:

- Byddai’r cynnydd arfaethedig “yn gryn her i’r cyrff hynny y cyfyngir ar eu cyllidebau eu hunain gan setliadau cyllid ac sy’n wynebu’r un pwysau costau byw ag Archwilio Cymru”.
- Mae cyrff a archwilir yn gwerthfawrogi gwaith Archwilio Cymru ac yn cydnabod nad oes modd osgoi gweithredu ISA315.
- Awgrymodd yr Undebau Llafur y dylai Archwilio Cymru wneud darpariaeth ar gyfer codiad cyflog i gyfateb i chwyddiant.
- Roedd amserlenni ar gyfer ymgynghori yn anodd i nifer o gyrff.<sup>226</sup>

**197.** Ar ôl myfyrio ar yr ymatebion, gostyngwyd y cynnydd arfaethedig i 4.8 y cant. Yn ôl Archwilio Cymru, bydd yn gweithio’n agos gyda chyrff sy’n cael eu harchwilio i liniaru effaith

---

<sup>222</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 15

<sup>223</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalennau 15 a 39

<sup>224</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 32

<sup>225</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 39

<sup>226</sup> Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 15

---

ISA315 ar eu ffi archwilio.<sup>227</sup> Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol fod y gostyngiad yn adlewyrchu'r gostyngiad mewn cyfraddau Yswiriant Gwladol.<sup>228</sup>

**198.** O ran adborth ar y cynnydd mewn ffioedd, nododd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaeth Archwilio ei bod yn ddealladwy bod cyrff a archwilir yn bryderus, gan ychwanegu:

*"We work with them to minimise the extent of any increases where we can. I think this year, though, they do understand that this is outside of our control. There's a completely new auditing standard. We have to apply that. We apply best practice, and that would be best practice. And they've only got to look, I suppose, or we've only got to look, across the border into England to see the likely scale of fee increases in local public audit there, and we see similar increases in the fees the private sector firms are charging their clients as well. So, I think we'll be working very closely, as we always do, with the audited bodies, to make sure that we minimise any increases, but I think there's an acceptance that it is inevitable and outside of our control this year."*<sup>229</sup>

**199.** Mewn perthynas ag effaith ymarferol gweithredu'r safon ISA315 newydd, esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio ei fod yn ymwneud â methodoleg hollol newydd, a oedd yn gofyn am ddealltwriaeth llawer mwy manwl o'r risgiau y mae sefydliad yn eu hwynebu yn ogystal ag asesiad llawer ehangach a mwy manwl o'r amgylchedd TG. Aeth yn ei blaen i ddweud:

*"All the indications are that this is going to require a much richer skill mix, so we're going to need staff who are more experienced. Those sorts of requirements for high levels of professional scepticism, performing judgement when you're looking at risks and what you do about those requires a much richer and more experienced group of staff to do that work. So, that's where the increased fees are coming from. It's not necessarily there will be more days—it's that those days will need to be done by more experienced staff."*<sup>230</sup>

**200.** Yn ôl Archwilio Cymru, mae llawer o ddysgu a datblygu a chydweithio gyda Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon wedi digwydd i gael methodoleg effeithlon ac effeithiol, sy'n

---

<sup>227</sup> [Rhan 2 – Gwybodaeth ategol – Amcangyfrif 2023-2024, tudalen 16](#)

<sup>228</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 283

<sup>229</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Tachwedd 2022 [drafft], paragraff 351

<sup>230</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 9 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [drafft], paragraffau 356-357

---

cydymffurfio â'r safon, ond mae'n rhy gynnar i ddweud a allai ffioedd ostwng ar ôl cyfnod trosiannol.<sup>231</sup>

**201.** O ystyried y gofyniad am staff mwy profiadol ac arbenigedd technegol, gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am strategaeth cadw staff Archwilio Cymru. Yn ôl y Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio, bu cynnydd yn nifer staff wnaeth adael ar lefelau hollbwysig arweinwyr archwilio ac uwch archwilwyr. Fodd bynnag, dywedodd fod Archwilio Cymru wedi'i warchod, efallai mewn ffordd na fyddai cyrff archwilio eraill o ganlyniad i staff da iawn yn dod drwy ei raglen hyfforddi, ac awgrymodd nad arian yw'r unig sbardun i'w staff. Ychwanegodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"...almost everybody who works in the public sector; we do it for different reasons, and our staff share the public sector ethos. They like the work that they do, the sort of flexibility and work-life balance that we're able to offer. So, money isn't everything, but it's undeniable that we're not able to match the sort of increases that are being offered now by the PwCs of the world. And when that gap gets to a certain stage, for some people, it's too difficult to ignore. When our graduate trainees qualify with their final suite of exams, those results will be published by the professional institutes, and they will be bombarded with offers straight away that are very tempting. So, the challenge for us is how we hold on to that sort of talent in the organisation."<sup>232</sup>*

## Safbwynt y Pwyllgor

**202.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffordd ddarbodus y mae Archwilio Cymru wedi datblygu ei gynigion cyllidebol o ystyried yr hinsawdd economaidd anodd, ac o'r farn bod Amcangyfrif 2023-24 yn rhesymol a chymesur.

**203.** Er ein bod yn cydnabod y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth adlewyrchu addasiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn yn 2022-23, ein canfyddiad yw bod cyflwyno'r Amcangyfrif yn arbennig o heriol am nifer o resymau. Mae angen llinell sylfaen ystyrion ar y Pwyllgor at ddibenion cymhariaeth – o ran arian parod ac adnoddau – ond nid yw gwerth arian parod y llinell sylfaen arian parod a'r cynnydd y gofynnwyd amdano wedi'u mesur yn y ddogfen Amcangyfrif. Cawsom wybod fod y llinell sylfaen arian parod ac adnoddau yr un peth (£8.6 miliwn), a nodir y ffigur hwn yn Arddangosyn 1 a 3. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni pam mae hyn yn wir gan fod y gyllideb refeniw – a nodir ar dudalennau 31 o Ran 2 o'r Amcangyfrif – yn

---

<sup>231</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 9 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [drafft], paragraffau 358-359

<sup>232</sup> Y Pwyllgor Cyllid, 9 Tachwedd 2022, Cofnod y Trafodion [drafft], paragraffau 362-363

---

cynnwys eitemau nad ydynt yn arian parod, er enghraifft dibrisiant. At hynny, mae Arddangosyn 1 ac Arddangosyn 3 yn rhoi dadansoddiadau gwahanol o'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt, ond ychydig iawn o esboniad sydd ynghylch pam eu bod yn wahanol yn naratif yr Amcangyfrif.

**204.** Ymhellach, nodwn y cadarnhad a ddarparwyd yn ystod y dystiolaeth fod y cymariaethau craidd a wnaed yn yr Amcangyfrif yn cyfateb i'r sefyllfa ar ôl Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2022-23. Er bod y Pwyllgor yn cytuno mai Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2022-23 yw'r gymhariaeth fwyaf priodol, mae'n ymddangos bod y dull a nodir yn anghyson â'r ffigur sylfaenol a ddarperir yn Arddangosyn 1. Mae hyn yn dangos cyfanswm adnoddau o £8.6 miliwn ar gyfer 2022-23, sef gwerth yr adnoddau a nodwyd yn Amcangyfrif gwreiddiol Archwilio Cymru ar gyfer 2022-23, tra bod cyfanswm yr adnoddau a nodwyd yn Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2022-23 yn £8.3 miliwn.<sup>233</sup> Rhaid i'r Amcangyfrif fod yn glir ynghylch sut y mae'n gwneud cymariaethau a bod yn gyson yn ei ddull gweithredu drwyddo draw. Dylid gwneud cymariaethau â'r Amcangyfrif diweddaraf a gymeradwywyd a lle na ellir gwneud hyn, dylid esbonio'r rhesymau.

**205.** At hynny, dyma ailbwysleisio'r farn a fynegwyd gennym y llynedd, sef y byddai Rhan 2 o'r Amcangyfrif yn elwa o gael mwy o fanylion am sut y bydd elfennau penodol o gyllid ychwanegol yn cael eu gwario – er enghraifft gwerth dyfarniadau cyflog – a pha weithgareddau sy'n gyfrifol am y cynnydd ym mhob categori, er enghraifft, mewn perthynas â chyflenwadau a gwasanaethau eraill. Mae'r math hwn o wybodaeth yn hanfodol i ystyriaeth y Pwyllgor o'r Amcangyfrif. Er ein bod yn ddiolchgar am yr esboniadau a ddarparwyd yn ystod tystiolaeth lafar, mae'n bwysig bod yna dryloywder, yn ogystal â chynorthwyo eraill sy'n dymuno archwilio'r Amcangyfrif, er mwyn i'r lefel hon o fanylder gael ei darparu yn y ddogfen Amcangyfrif.

**206.** Mae'r Amcangyfrif yn cynnwys arian parod ychwanegol ar gyfer dadfeiliadau ac, er ein bod yn nodi'r sensitifrwydd masnachol dan sylw, nid yw'n eglur ymhle a sut y rhoddir cyfrif am hyn yn yr Amcangyfrif. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r symudiadau yn y ffigur cyfalaf gweithio o £550,000 a'r eglurhad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol fod symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn cynnwys – ond nid yn ymwneud yn gyfan gwbl â – dadfeiliadau. Fodd bynnag, ni ddisgrifiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol yr hyn a gafodd ei gynnwys. Er ein bod yn derbyn sensitifrwydd masnachol ynghylch y ffigur hwn, mae Rhan 2 o'r Amcangyfrif yn nodi'n benodol bod uchafswm gofyniad arian parod o £550,000 wedi'i gynnwys ar gyfer dadfeiliadau.

**207.** At hynny, rydym yn aneglur ynghylch pam nad yw addasiadau eraill ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod wedi'u cynnwys yn y cysoniad rhwng yr adnoddau a'r arian parod y gofynnwyd amdanynt yn 2023-24 yn Rhan 1 o'r Amcangyfrif. Mae'r cysoniad a'r wybodaeth

---

<sup>233</sup> Llythyr gan Archwilio Cymru, 1 Mehefin 2022, tudalen 10



sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 2 o'r Amcangyfrif yn awgrymu mai'r unig eitemau eraill nad ydynt yn arian parod yn ei gyllideb adnoddau yw'r costau dibrisiant a llog sy'n ofynnol o dan IFRS 16 (yn ymwneud â'r brydles newydd ar gyfer swyddfeydd). Mae hyn yn awgrymu mai dyma'r unig dâl am ddibrisiant yng ngheisiadau adnoddau Archwilio Cymru ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, mewn blynyddoedd blaenorol, mae Archwilio Cymru wedi cynnwys addasiadau ar gyfer dibrisiant asedau eraill, yn ogystal ag ar gyfer 'symudiadau mewn cyfalaf gweithio' sy'n gysylltiedig â chroniadau. Awgrymodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn cynnwys dadfeiliadau yn unig.

**208.** Nodwn nad oedd y cynnig i newid rhywfaint o waith archwilio perfformiad a ariennir gan ffioedd presennol drwy Gronfa Gyfunol Cymru wedi'i gynnwys yn yr Amcangyfrif, gan nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cadarnhau ei chefnogaeth cyn ei gyflwyno a gofynnodd am ragor o drafodaethau. Ni fydd y Pwyllgor yn gallu cefnogi'r cynnig heb ragor o wybodaeth am y materion a godwyd a chanlyniad y trafodaethau hynny ac, os eir ar drywydd y newid arfaethedig, mae'n gofyn iddo gael ei ohirio tan Amcangyfrif 2024-25.

**209.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr Amcangyfrif yn cynnwys rhagdybiaethau cyflog o gynnydd o 4 y cant, yn is na chwyddiant a dangosyddion twf cyflog cyfartalog. Rydym yn pryderu y bydd y cynnydd mewn costau byw yn cael effaith andwyol ar staff, yn enwedig y rheini sydd ar lefelau is y raddfa gyflog, ac y bydd hynny'n arwain at fwy o staff yn wynebu trafferthion ariannol yn y misoedd i ddod. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r camau a gymerwyd i liniaru effaith y pwysau hyn, megis strwythuro dyfarniadau cyflog i dargedu staff ar ben isaf y strwythur tâl a chyflwyno graddfa gyflog newydd wedi'i meincnodi ar gyfer hyfforddeion a phrentisiaid.

**210.** Nodwn yr ohebiaeth a ddaeth i law gan Undeb Prospect ac Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol ar gyflogau staff. Fodd bynnag, byddai'n amhriodol inni lunio barn ar y materion a godwyd gan yr undebau llafur, gan eu bod yn ymwneud â materion gweithredol y mae Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a Bwrdd Archwilio Cymru yn gyfrifol amdanynt.

**211.** Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i wrthdroi'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol o 6 Tachwedd ymlaen, nodwn nad oes unrhyw gynlluniau i ddychwelyd unrhyw gyllid nas gwariwyd sy'n gysylltiedig â'r £51,000 a ddyrannwyd at y diben hwn yn 2022-23, drwy drydydd Amcangyfrif atodol yn 2022-23. Rydym yn nodi ymhellach bod y cyfraniadau Yswiriant Gwladol gostyngol yn cael eu hadlewyrchu yn Amcangyfrif 2023-24 ac yn y cynnydd o 4.8 y cant mewn cyfraddau ffioedd gostyngol, ond nad yw'r llinell sylfaen wedi'i haddasu i ddileu'r cyllid hwn o'r Amcangyfrif.

**212.** Er mwyn cynorthwyo tryloywder, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl i'r cyllid heb ei wario gael ei dynnu o'r llinell sylfaen ar gyfer 2022-23. Mae hwn hefyd yn faes pellach nad yw'n cael ei

ddisgrifio yn yr Amcangyfrif a dim ond ar ôl tystiolaeth lafar y daeth y dull i'r amlwg. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Archwilio Cymru fod yn glir ynghylch ei ddefnydd o'r cyllid y gofynnwyd amdano at ddibenion penodol a – lle nad oes angen cyllid, mwyach, at y dibenion y ceisiwyd ef yn wreiddiol – rhaid egluro hyn, a dylid ei ddychwelyd. Os bydd Archwilio Cymru yn nodi y gellid defnyddio'r cyllid hwn yn rhywle arall, dylid amlinellu hyn yn yr Amcangyfrif. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i unrhyw gyllid nas defnyddiwyd o 2022-23 gael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru ac i'r llinellau sylfaen gael eu haddasu i ystyried y gostyngiad mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol. At hynny, dylid egluro statws y cyllid hwn ar gyfer 2023-24.

**213.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith a ddisgrifir gan yr Archwilydd Cyffredinol a wneir ar gyfer pwyllgorau ac Aelodau eraill. Er ein bod yn ystyried y gwaith hwn yn werthfawr, rydym yn awyddus i Archwilio Cymru barhau i sicrhau bod hyn yn rhoi gwerth am arian. Rydym yn ymwybodol bod y gwaith hwn yn dod ar gost i'r pwrs cyhoeddus drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Rydym yn croesawu'r gwaith y mae Archwilio Cymru wedi'i wneud o ran yr ymarfer gyda rhanddeiliaid yn y gwanwyn i asesu eu barn ar ei waith perfformiad. At hynny, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod Archwilio Cymru yn y broses o fabwysiadu rhai safonau rhyngwladol o arfer gorau mewn perthynas â'r gwaith hwnnw. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld sut y caiff hyn ei gymhwyso a pha safbwynt y mae'n ei roi i Archwilio Cymru.

**214.** Nodwn fod y cynnydd o £50,000 ar gyfer hyfforddiant yn ymwneud â chynnydd a ragwelir mewn costau hyfforddiant cyfrifeg proffesiynol pan fydd Archwilio Cymru yn tendro am gyflenwr newydd y flwyddyn nesaf, a nodwn ymhellach yr ymrwymiad i ddychwelyd unrhyw warged i Gronfa Gyfunol Cymru.

**215.** Mae'r Amcangyfrif yn nodi cynnydd sylweddol yn rhaglen gyfalaf Archwilio Cymru o 2024-25 ymlaen, a deallwn fod y ffigurau'n rhai dangosol, heb unrhyw gynlluniau cadarn ar waith. Ni all y Pwyllgor ymrwymo i gynyddu'r gyllideb gyfalaf i'r lefelau a nodir yn yr Amcangyfrif ar gyfer y blynyddoedd i ddod heb gael rhagor o fanylion a chyfiawnhad.

**216.** At hynny, mae'r Amcangyfrif yn amlinellu meysydd lle mae Archwilio Cymru yn bwriadu defnyddio cyllid cyfalaf ond fodd bynnag, nid yw'n rhoi dadansoddiad o ran faint o gyllid fydd ar gael i bob maes. Rhaid i Archwilio Cymru roi rhagor o wybodaeth yn y dyfodol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ddeall sut y mae'n bwriadu buddsoddi'r cyllid a ddyrennir iddo. Rhaid i hyn gael ei wneud i lefel fanylach na'r penawdau bras sydd wedi'u cynnwys yn yr Amcangyfrif. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl gweld cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu yn ôl gweithgaredd penodol yn Amcangyfrif y flwyddyn nesaf.

**217.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am y wybodaeth a roddwyd mewn perthynas â'r estyniad posibl i ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n croesawu rhagor o wybodaeth pan ddaw'r cynigion yn gliriach.

**218.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd gweithredu'r safon adrodd ariannol ryngwladol newydd ISA315 yn newid sylweddol yn y dull o gynnal archwiliadau perthnasol ac mae'n deall yr hyn y mae Archwilio Cymru wedi'i ddweud am sut y bydd hyn yn effeithio ar archwiliadau a ffioedd archwilio. Rydym yn cydnabod yr ansicrwydd ynghylch i ba raddau y bydd y safon hon yn effeithio ar ffioedd yn y blynyddoedd i ddod ac rydym yn awyddus bod amcangyfrifon ac adroddiadau yn y dyfodol yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl am y gweithredu. Nodwn y cynnydd cyfartalog mewn graddfeydd ffioedd o 4.8 y cant, ond y gallai archwiliadau o waith cyfrifon gynyddu rhwng 12 a 18 y cant. Er bod hwn yn gynydd sylweddol, rydym yn derbyn y dystiolaeth bod cwmnïau archwilio yn y sector preifat wedi ysgrifennu at gleientiaid yn eu hysbysu bod ffioedd yn debygol o godi hyd at 20 y cant.

**219.** Nodwn y bydd y dull gweithredu newydd yn gofyn am adnoddau ar gyfer archwiliadau gyda staff mwy profiadol sydd â chymwysterau proffesiynol a bod Archwilio Cymru mewn cystadleuaeth uniongyrchol â chwmnïau yn y sector preifat. Er ein bod yn pryderu am y ffaith y bu cynnydd yn nifer y staff wnaeth adael ar lefel hollbwysig yr uwch archwilwyr, dyma gydnabod y prinder llafur byd-eang a chyfyngiadau cyllidebau'r sector cyhoeddus, a chydnabod y mesurau sy'n cael eu cymryd mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r materion hynny.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi dadansoddiad o'r eitemau anariannol o fewn ei linell sylfaen adnoddau, a chysoniad rhwng llinellau sylfaen arian parod ac adnoddau a nodir yn Rhan 2 o'r Amcangyfrif ar gyfer ei gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer 2023-24, ac yn Amcangyfrifon y dyfodol.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell – ar gyfer pob Amcangyfrif yn y dyfodol – bod Archwilio Cymru yn darparu'r un lefel o fanylion am y cymorth y mae'n ei geisio ar sail adnoddau ac arian parod, gan gynnwys gwybodaeth am ei sefyllfa sylfaenol ac unrhyw newidiadau i'w gyllidebau.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn ystyried sut y gellir gwella'r modd y cyflwynir yr Amcangyfrif yn y dyfodol er mwyn:

- cymharu'r adnoddau a'r arian parod y gofynnwyd amdanynt â'r gyllideb gymeradwy ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, a lle nad yw hyn yn wir, dylid nodi hynny'n glir yn yr Amcangyfrif, gyda rhesymau i egluro pam nad oedd yn bosibl gwneud hynny;

- rhoi rhagor o fanylion a dadansoddiad o ran sut y bydd cynnydd mewn elfennau penodol o gyllid yn cael ei wario.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru:

- yn rhoi dadansoddiad o'r symudiadau o £550,000 yn y ffigur cyfalaf gweithio, ac
- yn cynnwys rhagor o wybodaeth am symudiadau mewn cyfalaf gweithio mewn Amcangyfrifon yn y dyfodol, gan gynnwys manylu ar eu diben ar hyn y mae pob symudiad yn ymwneud ag ef.

**Argymhelliad 13.** Os yw Archwilio Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r newid cyllid arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio perfformiad lleol, mae'r Pwyllgor yn argymhell ei fod:

- yn darparu rhagor o wybodaeth am yr ymholiadau a godwyd gan Lywodraeth Cymru a hynt y trafodaethau hynny, wrth iddynt ddigwydd, ac
- yn gohirio'r cynnig tan Amcangyfrif 2024-25.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn ystyried ffyrdd pellach o gynnig cymorth ychwanegol i staff ar gyflog is a/neu staff a allai brofi anawsterau wrth i effeithiau'r cynnydd mewn costau byw gael eu teimlo, a'i fod yn cymryd camau i werthuso ei becyn cymorth i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd y rhai sydd ei angen fwyaf.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn dychwelyd y cyllid heb ei wario ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol o 2022-23 i Gronfa Gyfunol Cymru ac yn addasu'r llinell sylfaen ar gyfer 2023-24 yn unol â hynny.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion am yr adborth a gafwyd ar ei waith perfformiad ac yn ei ddiweddarau ar y broses o fabwysiadu safonau rhyngwladol o arfer gorau yn y maes hwn, gan gynnwys ei ddisgwyliadau o'r hyn y bydd yn ei gyflawni.

**Argymhelliad 17.** Yn dilyn y broses dendro ar gyfer hyfforddiant cyfrifeg proffesiynol, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod unrhyw arian dros ben yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru a'i dynnu o'r llinell sylfaen.

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion a dadansoddiad o sut y bydd elfennau penodol o'i gyllid cyfalaf yn cael eu gwario yn 2023-24 a hefyd yn cynnwys yr un lefel o fanylion ym mhob Amcangyfrif yn y dyfodol.

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o ran yr estyniad posibl i ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, pan ddaw'n amlwg beth fydd y goblygiadau i Archwilio Cymru.

## Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
<b>22 Medi 2022</b>	<b>Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru</b> Archwilio Cymru <b>Lindsay Foyster, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru</b> Archwilio Cymru <b>Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol</b> Archwilio Cymru <b>Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio</b> Archwilio Cymru
<b>9 Tachwedd 2022</b>	<b>Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru</b> Archwilio Cymru <b>Lindsay Foyster, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru</b> Archwilio Cymru <b>Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol</b> Archwilio Cymru <b>Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio</b> Archwilio Cymru

Atodiad B: Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio  
Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31  
Mawrth 2024



# Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024

Hydref 2022

## Wedi'i baratoi ar y cyd a'i osod gerbron y Senedd dan Adran 20(1) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

### Lindsay Foyster

Cadeirydd Archwilio  
Cymru

### Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol  
Cymru

Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru fynd ati ar y cyd i baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Senedd o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

Yn unol ag Adran 20 y Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau y mae ar yr Archwilydd Cyffredinol eu hangen i arfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Senedd wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif sy'n briodol yn ei dyb ef, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiad oni bai:

- Yr ymgynghorwyd â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; a
- bod unrhyw sylwadau a wnaed gan y naill neu'r llall wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.

Bob blwyddyn rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno cynnig yn y Senedd dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronrus) a thaliadau sydd i'w gwneud i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau sydd i'w cynnwys mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.



# Cynnwys

---

Rhagair	4
Cwmpas y Gyllideb 2022-23	6



# Rhagair

Mae Archwilio Cymru'n bodoli i roi hyder i'r Senedd a phobl Cymru mewn sector cyhoeddus sy'n perfformio'n uchel ac sy'n atebol.

Ein Hamcangyfrif ar gyfer 2023-24 yw Cwmpas y Gyllideb a gynhwysir yn y ddogfen hon. Byddwn yn darparu gwybodaeth ategol ar wahân am yr Amcangyfrif i'r Pwyllgor Cyllid ddeall sut y byddwn yn defnyddio'r cyllid y gofynnir amdano.

Fe wnaeth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol nodi'r ansicrwydd parhaus ynghylch gwariant yn y dyfodol yn ei llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf 2022. Rydym yn cydnabod hyn; ond rydym hefyd yn ymwybodol o bwysau chwyddiant, yn anad dim ar gostau staffio a'r angen i ymateb i safon archwilio newydd – ISA315 – yr ydym yn disgwyl iddi gael effaith sylweddol ar gost ein gwaith archwilio ac, o ganlyniad, ar y ffioedd y bydd angen i ni eu codi am y gwaith hwnnw. Cyhoeddwyd yn ddiweddar y gallai ffioedd archwilio yn Lloegr ar gyfer cyrff llywodraeth leol godi gymaint â 150%.

Am y rhesymau hyn, mae ein Hamcangyfrif yn caniatáu cynnydd yn ein galwad ar WCF am Archwilio Cymru o ychydig dan 3% ond cynnydd mwy sylweddol yn ein ffioedd archwilio cyfrifon sy'n gysylltiedig â rhoi ISA315 ar waith. Gyda'i gilydd bydd cyfanswm ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn yn cynyddu 5.4%.

Mae ein rhaglen eang o waith gwerth am arian yn hanfodol i atebolrwydd seneddol cadarn trwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau eraill y Senedd. Rydym yn archwilio cyfrifon a threfniadau llywodraethu dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddarparu'r prif ddull sicrwydd ynghylch sut y mae arian cyhoeddus yng Nghymru'n cael ei reoli. O Lywodraeth Cymru ei hun i'r cyngor cymuned lleiaf, trwy bron pob maes y darperir gwasanaethau cyhoeddus ynddo, gall yr Archwilydd Cyffredinol ddilyn y bunt gyhoeddus ble bynnag y caiff ei gwario.

Rydym yn llwyr ymwybodol o'n cyfrifoldeb tuag at rannau eraill o'r sector cyhoeddus i gyfyngu ar ein costau gweithredu ein hunain a'r ffioedd a godir gennym, ar yr amod nad yw hynny'n peryglu ansawdd archwilio a'r sicrwydd y gallwn ei ddarparu. Mae ein gwybodaeth ategol yn nodi manylion yr arbedion yr ydym yn eu disgwyl ar ein costau teithio ac adeiladau sy'n helpu i wrthbwysu codiadau disgwylidiedig mewn costau staff.

Ar gyfer 2023-24 rydym unwaith eto wedi gosod targedau sy'n gryn her ar gyfer arbedion o reoli swyddi staff gwag a meysydd gwariant eraill.

Mae ein [Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2021-22](#) yn nodi ein hanes cyflawni ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ym mis Mawrth eleni fe osodom ni ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23](#) gerbron y Senedd. Mae'r Amcangyfrif hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau wrth edrych ymlaen ar gyfer 2023-24 ac yn darparu gofynion cyllido dangosol hyd at 2027-28. Bydd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023-24 yn cael ei osod gerbron y Senedd cyn mis Mawrth 2023.

Edrychwn ymlaen at drafod ein Hamcangyfrif gyda'r Pwyllgor Cyllid maes o law.



**Lindsay Foyster**

Cadeirydd Archwilio  
Cymru



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol  
Cymru



# Cwmpas y Gyllideb 2023-24

## Amcangyfrif o ofynion cyllidebol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024

- O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i Weinidogion gyflwyno Cynnig Cyllidebol yn y Senedd i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer rhai personau perthnasol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.
- Mewn perthynas â gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024, bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi:
  - swm yr adnoddau a all gael eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol gan Swyddfa Archwilio Cymru (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
  - swm yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, a all gael eu cadw yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru; a hefyd
  - y swm y gellir ei dalu allan o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.
- Caiff y gofynion hyn, y mae amrywioldeb ffrydiau incwm yn golygu na allant ond bod yn amcangyfrifon, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.
- Caiff manylion sut yr ydym yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i gyflawni archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn 2023-24 eu nodi yn ein gwybodaeth ategol.

**Arddangosyn 1: crynodeb o'r amcangyfrif o ofynion cyllidebol 2023-24**

£'000

Adnoddau, ac eithrio adnoddau cronrus, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:

- Refeniw 8,142
- Cyfalaf 310

Adnoddau cronrus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol ac adennill costau a ysgwyddir ar gyfer trydydd parti – y cyfan i'w ddefnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.

16,133

Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.

8,922

- 5 Mae **Arddangosyn 2** yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i ofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024.

**Arddangosyn 2: cysoni'r gofyniad am adnoddau â'r gofyniad i dynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru**

£'000

Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf

8,452

Addasiad nad yw'n arian parod – dibrisiant a thaliadau llog

(360)

Taliadau rhent ar brydlesi

280

Addasiad nad yw'n arian parod – symudiadau mewn cyfalaf gweithio

550

Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru

8,922



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau  
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)